


Cynllun Datblygu Lleol Casnewydd

# Strategaeth a Ffefrir: Adroddiad Asesu Anheddiad

Hydref 2023

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales
Llofnodydd y Siarter | Charter Signatory

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

1 CYFLWYNIAD ... 3
2 EGWYDDORION ARWEINIOL A CHYD-DESTUN POLISI ... 4
3 Polisi ac Arweiniad Cenedlaethol ... 5
4 Polisi Lleol ... 6
5 ASESIAD O FFINIAU DATBLYGU PENTREFI ... 6
6 SYSTEM SGORIO PENTREFI ... 7
7 ARFARNU PENTREFI ... 9
8 Trefesgob ... 10
9 Underwood ... 12
10 Y Redwig ... 14
11 Parc Seymour ... 16
12 Pen-hw ... 18
13 Llanfaches ... 20
14 Llandyfaud ... 22
15 Machen Isaf ... 24
16 Trefonnen ... 26
17 Allteuryn ... 28
18 Christchurch ... 30
19 Cas-bach ... 32
20 Maerun ... 34
21 Llan-bedr Gwynllŵg ... 36
22 Llansanffraid Gwynllŵg ... 38
23 Llan-wern ... 41
24 ATODIAD 1 – Asesiad Sgorio ... 43

# 1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae ffiniau datblygu yn cael eu cydnabod a'u derbyn yn gyffredinol fel arf hanfodol ar gyfer rheoli datblygiad, yn bennaf i atal ymlediad heb ei reoleiddio o ddatblygiad i gefn gwlad. Mae'n bwysig felly bod y cysyniadau y maent yn seiliedig arnynt yn glir, yn cael eu cymhwyso'n gyson, ac yn hawdd i ddefnyddwyr eu deall.

1.1.2 Mae'r ffiniau presennol yng Nghasnewydd wedi'u llunio'n eithaf tynn, yn enwedig o amgylch pentrefi, ond gall fod achos dros dynnu ffiniau hyd yn oed yn dynnach mewn lleoliadau anghynaliadwy i atal cyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach. I'r gwrthwyneb, os gellir pennu bod lleoliad yn gynaliadwy yna gellir ymestyn ffin pentref i hwyluso lefel briodol o ddatblygiad ar gyfer yr anheddiad.

1.1.3 Dylid nodi bod yr asesiad hwn i'w ystyried ochr yn ochr ag asesiad o bolisïau cynllunio eraill, felly nid y ddogfen hon yw'r unig ystyriaeth a gymerir wrth asesu cynigion datblygu penodol neu safleoedd ymgeisiol.

1.1.4 At ddibenion yr Asesiad Ffin Anheddiad, mae pentref wedi'i ddiffinio fel "anheddiad gwledig gyda ffurf ofodol gymharol gryno, sydd fel arfer wedi'i amgylchynu gan gefn gwlad ac sydd ag o leiaf un ased cymunedol o fewn ei ffin (e.e. siop leol, eglwys, neu ysgol)."

*1.1.5* Gellir nodi'r angen i ddarparu asesiad aneddiadau o'r materion a'r amcanion canlynol sy'n dod i'r amlwg yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN):

| |
|---|
| **Materion**<br><br>22. Ystyried hierarchaeth aneddiadau, ffiniau trefol a phentrefi, a chyfleoedd ar gyfer datblygu mewn ardaloedd gwledig.<br>24. Brwydro yn erbyn pwysau datblygiad yn yr ardal arfordirol a'r Gwastadeddau oherwydd eu natur o ddiddordeb gweledol, hanesyddol ac ecolegol eithriadol.<br>26. Angen mynd i'r afael â'r gofynion tai sy'n codi o'r twf a ragwelir yn y boblogaeth a nodi swm addas o dir i gynnal y rhain. Mae hyn yn cynnwys deall diffygion wrth gyflawni gofynion Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2011-2026.<br>27. Darparu ystod amrywiol o gartrefi newydd o wahanol fathau a deiliadaethau mewn gwahanol leoliadau, gan fynd i'r afael ag anghenion penodol, anghenion tai fforddiadwy a hygyrchedd i bawb.<br>29. Sicrhau bod datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy, gyda chymorth y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol a ffisegol angenrheidiol, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth.<br>31. Mae lleihau'r angen i deithio ac annog dewisiadau teithio cynaliadwy yn her ac yn gyfle.<br>36. Darparu gwasanaethau a chyfleusterau lleol i ddiwallu anghenion beunyddiol cymunedau mewn lleoliadau hygyrch. |
| **Amcan**<br><br>2. Poblogaeth a Chymunedau<br>Darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion Casnewydd, fel ardal twf cenedlaethol, a sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cynnal gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol angenrheidiol i ddarparu lleoedd diogel ac iach i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaethau cymunedau ac aneddiadau. |

## 2 Egwyddorion Arweiniol a Chyd-destun Polisi

2.1.1 Mae egwyddorion arweiniol ar gyfer ffiniau datblygu wedi'u hystyried wrth asesu ffiniau pentrefi ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN). Egwyddorion arweiniol ar gyfer ffiniau datblygu:

i. Mae Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn mabwysiadu ymagwedd ofodol gymysg, gan gyfeirio datblygiad i ystod o leoliadau. Gyda datblygiad mwy strategol ar raddfa fwy yn digwydd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen ac ar gyrion yr ardal drefol.
ii. Dylai fod tystiolaeth o angen am y datblygiad yn enwedig o ran tai fforddiadwy.
iii. Rhoddir ystyriaeth i lefel y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol trwy ddefnyddio system sgorio (gweler Adran 4).
iv. Dylid asesu argaeledd cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a pherthynas â'r rhwydwaith ffyrdd a'r seilwaith.
v. Dylai ffiniau datblygu gynnwys safleoedd ymylol lle mae caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl eisoes wedi'i roi. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu'n awtomatig y dylai unrhyw ofod rhyngol hefyd gael ei ddyrannu o fewn ffin ddatblygu.
vi. Os yw agwedd y cynllun datblygu yn rhoi pwyslais ar dwf pentrefi, yna mae'n rhaid llunio ffiniau aneddiadau'n briodol er mwyn gallu darparu cyfleoedd mewnlenwi/hap-safleoedd o'r fath. I'r gwrthwyneb, os dylid cyfyngu ar dwf mewn anheddiad penodol, yna rhaid tynnu ffiniau yn dynn neu eu dileu er mwyn cyfyngu ar gyfleoedd datblygu yn y dyfodol.
vii. Nid oes angen i ffiniau datblygu fod yn ddi-dor. Gall fod yn briodol o ystyried ffurf anheddiad i ddiffinio dwy neu ragor o ardaloedd ar wahân. Dylai ffiniau datblygu gynnwys datblygiad adeiledig ymylol ar ymyl anheddiad sy'n cyfrannu at fywiogrwydd economaidd a/neu gymdeithasol yr anheddiad, e.e. siop, neuadd gymunedol, eglwys neu dafarn.
viii. Dylid eithrio datblygiad anghysbell neu wasgaredig sy'n amlwg ar wahân i brif ardal adeiledig yr anheddiad o'r ffin.
ix. Ni ddylid cynnwys caeau chwarae ymylol presennol ac arfaethedig, gofod amgylcheddol, rhandiroedd a gerddi cymunedol o fewn y ffin.
x. Ni ddylid cynnwys ardaloedd ymylol heb eu datblygu sydd mewn ardaloedd perygl llifogydd diffiniedig o fewn y ffin ddatblygu.
xi. Yn gyffredinol, dylai ffiniau ddilyn cwrtil eiddo ac eithrio lle mae gerddi mawr neu fannau agored eraill, a fyddai'n cael eu cynnwys yn amhriodol yn yr ardal adeiledig gan nad ydynt yn addas i'w datblygu. Mae hyn yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad mewnlenwi amhriodol neu lechfeddiannu ar gefn gwlad.
xii. Lle bo modd, dylai ffiniau datblygu ddilyn nodwedd amddiffynadwy diffiniedig e.e. ffin cae, heol, nant, wal neu ffens.
xiii. Ni ddylai adeiladau amaethyddol gael eu cynnwys yn awtomatig mewn ffiniau datblygu oni bai eu bod yn perthyn yn dda o ran graddfa a lleoliad i weddill y pentref.

# 3 Polisi ac Arweiniad Cenedlaethol

3.1.1 Nid yw polisi cenedlaethol yn rhoi arweiniad penodol ar lunio neu ddyrannu ffiniau aneddiadau ond, yn hytrach, mae Polisi Cynllunio Cymru [11] (PCC) 2021, paragraff 3.60 yn nodi:

3.1.2 *"Dylid lleoli datblygiadau yng nghefn gwlad o fewn a gerllaw'r aneddiadau lle gellir eu lleoli orau o ran seilwaith, mynediad a gwarchod cynefinoedd a gwarchod y dirwedd. Gall mewnlenwi neu estyniadau bach i aneddiadau cyfredol fod yn dderbyniol, yn enwedig os yw'n diwallu angen lleol am dai fforddiadwy neu y gellir dangos y bydd y cynnig yn cynyddu gweithgarwch economaidd yn yr ardal. Fodd bynnag, mae'n rhaid parhau i reoli gwaith adeiladu newydd yn gaeth mewn cefn gwlad agored nad yw ger aneddiadau cyfredol neu ardaloedd a ddyrannwyd ar gyfer datblygu mewn cynlluniau datblygu. Dylai pob datblygiad newydd barchu cymeriad yr ardal o ran ei faint a'i ddyluniad."*

3.1.3 Mae geiriad PCC yn nodi'r gwerth y dylid ei roi i gefn gwlad agored a'i warchod. Mae ffiniau datblygu felly yn rhoi cyfle i bolisi gyfeirio datblygiad tuag at leoliadau mwy cynaliadwy, gan osgoi effeithiau ar gefn gwlad agored.

3.1.4 Cynllun datblygu yw Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Cymru'r Dyfodol), sy'n amlinellu sut y bydd Cymru'n newid dros y cyfnod rhwng 2020 a 2040. Mae hyn yn ymwneud â datblygiad trefol a gwledig. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi tri pholisi sy'n berthnasol i'r asesiad hwn o aneddiadau, sy'n cynnwys arfarniad o bentrefi Casnewydd. Y polisïau hyn yw:

- Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig – Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol nodi eu cymunedau gwledig, mynd i'r afael â'u hanghenion a gosod polisïau i'w cefnogi.

- Polisi 5 – Cefnogi'r economi wledig – Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig, gan gynnwys cyflogaeth sy'n deillio o'r economi sylfaenol; y sector amaethyddol a choedwigaeth, gan gynnwys cynigion ar gyfer arallgyfeirio; busnesau newydd a microfusnesau.

- Polisi 34 – Lleiniau Glas yn y De-ddwyrain – Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las ar gyfer rhanbarth y De-ddwyrain er mwyn rheoli ffurf a thwf trefol. Ni all y CDLlN bennu ffin y llain las. Fodd bynnag, mae'r polisi'n cynnwys y gofyniad na ddylai awdurdodau lleol ganiatáu na dyrannu datblygiad mewn ardaloedd a ddangosir i'w hystyried ar gyfer lleiniau glas. Mae Polisi SP6 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn dynodi llain las ar hyd ffin Caerdydd a Chasnewydd i'r gorllewin o Gasnewydd. Mae'r dynodiad hwn yn ceisio cynnal natur agored yr ardal hon ac mae ganddo berthynas ag aneddiadau sydd eisoes yn bodoli yn y lleoliad hwn, yn fwyaf nodedig Maerun a Chas-bach. Yn dilyn cyhoeddi Cymru'r Dyfodol, nid yw'n briodol bwrw ymlaen â pholisi SP6. Gall fod yn fwy priodol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd asesu'r ardal hon i'w diogelu fel lletem las a'r adolygiad o SP7. Serch hynny, bydd yr ardal i'w hystyried fel llain las yn cael ei hamddiffyn rhag datblygiad amhriodol yn y cyfamser, a bydd angen i'r Cynllun Datblygu Strategol ddynodi llain las fwy strategol yn ffurfiol yn unol â Pholisi 34 Cymru'r Dyfodol.

# 4 Polisi Lleol

4.1.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig 2011-2026 (CDLl) yn darparu Polisi SP5 Cefn Gwlad, sy'n datgan:

4.1.2 "Ni chaniateir datblygiad yng nghefn gwlad (hynny yw'r ardal o dir y tu hwnt i'r ffiniau anheddiad...) onid yw'r defnydd yn briodol... yn parchu cymeriad y dirwedd a bioamrywiaeth y cyffiniau a'i fod yn briodol o ran maint a dyluniad".

4.1.3 Mae'r polisi mabwysiedig yn amlinellu rôl ffiniau aneddiadau a sut mae eu rôl fel ystyriaeth bolisi bwysig, sydd wedi bod yn arf effeithiol wrth reoli datblygu mewn ardaloedd gwledig ers mabwysiadu'r CDLl, fel y nodir yn Adroddiadau Monitro Blynyddol Casnewydd. Mae'r pwysau sydd ganddynt wrth wneud penderfyniadau yn dangos pam y mae'n rhaid ystyried dyraniad ffiniau aneddiadau ar gyfer ein pentrefi yn ofalus.

4.1.4 Bydd amddiffyn cefn gwlad a chefnwledydd o amgylch ardal drefol Casnewydd yn parhau i fod yn agwedd allweddol ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae PS2 yn amlinellu strategaeth ofodol sy'n ceisio cyfeirio datblygiad tuag at yr ardal drefol, ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a'r ymyl drefol. Mae peth datblygiad o raddfa briodol i'w gefnogi mewn pentrefi gyda chyfyngiadau datblygu diffiniedig, sef ffiniau aneddiadau. Yn yr un modd ag SP5 o CDLl 2011-2026, mae PS2 yn nodi na chaniateir datblygiad yng nghefn gwlad oni fydd y defnydd yn briodol ac yn parchu tirwedd, cymeriad a bioamrywiaeth yr ardal gyfagos a'r cyffiniau, a'i fod yn briodol o ran maint a dyluniad.

# 5 Asesiad o Ffiniau Datblygu Pentrefi

5.1.1 Mabwysiadwyd CDLl Casnewydd yn ffurfiol gan y Cyngor ym mis Ionawr 2015, ac asesodd y sylfaen dystiolaeth 16 o aneddiadau gwledig a oedd â ffiniau pentrefi wedi'u diffinio gan yr hen Gynllun Datblygu Unedol (CDU), a fabwysiadwyd ym mis Mai 2006. Cynhaliwyd yr asesiad sy'n sail i'r CDLl ym mis Mehefin 2013 a llywiodd y canlyniadau'r ffiniau a fabwysiadwyd gan y CDLl. Yr 16 o aneddiadau gwledig hyn a aseswyd oedd: 1. Machen Isaf, 2. Maerun, 3. Cas-bach, 4. Llan-bedr Gwynllŵg, 5. Llansanffraid Gwynllŵg, 6. Trefonnen, 7. Allteuryn, 8. Y Redwig, 9. Trefesgob. Llan-wern, 11. Underwood, 12. Llandyfaud, 13. Pen-hw, 14. Llanfaches, 15. Parc Seymour, ac 16. Christchurch.

5.1.2 O'r 16, cadwodd naw eu ffiniau aneddiadau drwy'r CDLl mabwysiedig, tra bod saith wedi'u dileu. Gweler tabl 1 am y manylion llawn. Penderfynwyd er tegwch a dibynadwyedd y dylid ailasesu pob un o'r 16 o aneddiadau a nodwyd yn y CDLl blaenorol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) 2021-2036. Defnyddiwyd y rhestr fel man cychwyn ar gyfer cynnal asesiad o ffiniau pentrefi.

Tabl 1: Canlyniad yr Adolygiad o Ffiniau Pentrefi 2013

| Ffin a Gadwyd ar gyfer CDLl 2011-2026 | Ffin y Pentref wedi'i Dileu |
|---|---|
| Maerun | Machen Isaf |
| Cas-bach | Trefonnen |
| Llansanffraid Gwynllŵg | Allteuryn |
| Trefesgob | Y Redwig |
| Llan-wern | Llandyfaud |
| Underwood | Pen-hw |
| Christchurch | Llan-bedr Gwynllŵg |
| Parc Seymour | |
| Llanfaches | |

5.1.3 Ceisiodd yr asesiad ddod i ddeall y cwestiynau canlynol:

- A ydyw'r ffiniau presennol yn adlewyrchu ffurf bresennol y pentref ac unrhyw ddatblygiad arfaethedig?
- A ydyw'r pentref yn cynrychioli'r math o leoliad y mae Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) yn ei nodi fel lleoliad addas ar gyfer datblygiad yn y dyfodol?
- A ydyw'r pentref yn lleoliad cynaliadwy ar gyfer datblygu ac a fyddai trigolion newydd yn cael mynediad i amwynderau sylfaenol ac amrywiaeth o ddewisiadau trafnidiaeth pe baent yn byw yma?
- A oes digon o seilwaith eisoes yn ei le i gynnal datblygiad newydd yn y lleoliad hwn?
- A ydyw unrhyw un o'r safleoedd ymgeisiol ymylol ar gyfer ffin bentref, gan gynnwys y rhai sy'n disgyn o dan y trothwy ar gyfer yr Asesiad o Safleoedd Posibl, yn addas i'w cynnwys o fewn y ffin drefol?

5.1.4 Defnyddiwyd ffiniau pentrefi sydd eisoes yn bodoli yn CDLl mabwysiedig 2011-2026 fel man cychwyn ar gyfer trafod ffiniau datblygu yn y dyfodol. Lle cafodd ffiniau eu dileu trwy fabwysiadu'r CDLl, mae ffiniau a argymhellwyd gan asesiad 2013 wedi'u defnyddio fel man cychwyn.

5.1.5 Ymwelwyd â phentrefi rhwng mis Ionawr 2022 a mis Chwefror 2023.

5.1.6 Cynhaliwyd ymchwil pen desg i ddelweddau lloeren, hanes cynllunio ac asesiad sgorio cyn cynnal yr ymweliadau safle. Yna cynhaliwyd ymweliadau safle â'r holl bentrefi i ganfod a oedd ffiniau aneddiadau yn addas i'r diben.

5.1.7 Mae methodoleg a chanlyniad y system sgorio a ddefnyddiwyd ar gyfer y pentrefi i'w gweld yn Adran 6 o'r adroddiad.

5.1.8 Gellir dod o hyd i bob asesiad pentref yn ddiweddarach yn yr adroddiad ac mae'n cynnwys disgrifiad o'r pentref, hanes cynllunio perthnasol a gwybodaeth am safleoedd ymgeisiol. Ar gyfer pob pentref gwneir argymhelliad ynghylch a ddylid cadw, adfer neu ddileu ffin anheddiad. Cynhwysir delwedd ofodol o bob anheddiad a'r ffin fabwysiedig ac arfaethedig i ddangos yr argymhellion.

# 6 System Sgorio Pentrefi

6.1.1 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (y Llawlyfr) (2020) yn datgan ym mharagraff 5.15 y dylai'r ACLl "gynnal asesiad o aneddiadau i lywio penderfyniadau ynghylch ble y dylid lleoli datblygiadau'n ofodol er mwyn sicrhau patrwm twf cynaliadwy, lleihau patrymau anghynaliadwy o ran symud pobl a chefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol".

6.1.2 Mae'r Llawlyfr yn awgrymu naill ai defnyddio system sgorio neu ddadansoddiad RAG (dadansoddiad coch, oren, gwyrdd) i gyflwyno canlyniadau'r asesiad. Defnyddiwyd system sgorio ar gyfer gwerthuso'r pentrefi. Sefydlwyd hyn drwy gymharu'r dulliau a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol eraill, lle'r oedd asesiadau tebyg wedi'u cynnal yn ddiweddar, gan gynnwys Sir Fynwy[1], Kirklees[2], a Chanolbarth Suffolk[3] i sicrhau bod y system sgorio yn gynhwysfawr.

1 Gwerthusiad Anheddiad Sir Fynwy 2020
2 Gwerthusiad Anheddiad Kirklees
3 Papur Adolygu Hierarchaeth Aneddiadau Canolbarth Suffolk 2019

6.1.3 O’r ymchwil hwn, pennwyd pedwar prif baramedr i raddio cynaliadwyedd pentrefi, sef:

- Cysylltedd a darparu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy
- Seilwaith a Chyflogaeth
- Darparu Gwasanaethau
- Cyfyngiadau Polisi Presennol

6.1.4 Dangosir sgorau terfynol y pentrefi isod. Mae’r dull sgorio yn galluogi cymhariaeth rhwng aneddiadau i ddarparu gwell dealltwriaeth o rôl a swyddogaeth bresennol cymunedau gwledig Casnewydd. Mae sgorau uwch yn nodweddiadol yn dangos bod gan y pentref well mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a llai o gyfyngiadau tir na’r pentrefi hynny sy’n sgorio’n is. Ystyrir y sgorau hyn ochr yn ochr â rôl a swyddogaeth a maint y pentrefi i ffurfio argymhelliad ffin. Ystyrir bod y rhai sydd â ffin ddiffiniedig yn gallu cynnal datblygiad newydd priodol.

6.1.5 Gellid dyfarnu uchafswm o 87 pwynt i bob pentref, gan gynnwys y 37 pwynt y gellid eu tynnu i gymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau sy’n ymwneud â’r tir, e.e. ardaloedd risg llifogydd neu ddynodiadau statudol.

6.1.6 Mae canlyniadau sgorio’r pentref, gan gynnwys y meini prawf y mesurir y paramedrau hyn yn eu herbyn, i’w gweld yn Atodiad 1.

| Tabl 2: Sgorau Pentref | | |
|---|---|---|
| Christchurch - 78<br>Underwood - 57<br>Cas-bach - 69<br>Llan-wern - 73<br>Maerun - 40<br>Trefesgob - 33 | Parc Seymour - 37<br>Trefonnen - 21<br>Pen-hw - 32<br>Llandyfaud - 32<br>Machen Isaf - 31<br>Llanfaches - 29 | Y Redwig - 0<br>Llan-bedr Gwynllŵg - 2<br>Llansanffraid Gwynllŵg - 3<br>Allteuryn - 1 |

# 7 GWERTHUSIAD PENTREF

7.1.1 Mae’r bennod ganlynol yn amlinellu canlyniad y gwerthusiad pentref, gan gynnwys asesiad ffiniau ar gyfer pob anheddiad. Mae’n cynnwys trosolwg o bob pentref, nodiadau a wnaed yn ystod ymweliadau safle, argymhellion ffiniau, a map o gynigion ffiniau.

## 7.2 Trefesgob

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.2.1 Pentref bychan i'r gogledd o waith dur Llan-wern a'r brif reilffordd rhwng Casnewydd a Bryste yw Trefesgob. Mae ar gyrion Ardal Archaeolegol Sensitif ac mae'r rhan fwyaf o'r anheddiad yn dod o fewn parth amddiffynnol morol TAN15. Nid oes ganddi unrhyw gyfleusterau cymunedol nodedig ar wahân i neuadd bentref, eglwys a maes chwarae.

7.2.2 Cafodd y pentref sgôr o 33 a oedd yn ei osod yn eithaf uchel o gymharu â llawer o bentrefi eraill yng Nghasnewydd. Roedd y sgôr uchel hwn yn bennaf oherwydd agosrwydd at y Ganolfan Leol a gwasanaethau eraill ym mhentref cyfagos Underwood, sydd tua 1.5 km i'r gogledd o Trefesgob.

7.2.3 Er gwaethaf yr agosrwydd hwn, nid oes llwybrau troed/beiciau di-dor yn cysylltu'r ddau bentref, sy'n awgrymu y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn dibynnu ar geir i gael mynediad i'r gwasanaethau hyn. Nid oes trafnidiaeth gyhoeddus benodol yn gwasanaethu'r pentref ei hun, sy'n cynyddu ymhellach y tebygolrwydd o ddibyniaeth ar geir.

7.2.4 O ystyried lefel y mwynderau o fewn y pentref ei hun, mae datblygiad pellach yn annhebygol o fod yn addas yn y lleoliad hwn.

### *Ymweliad Safle*

7.2.5 Nododd yr ymweliad safle fod y pentref yn anheddiad hirgul ar hyd Heol Trefesgob. Nodwyd hefyd bod y brif ffordd drwy'r pentref yn gul mewn mannau a bod cwrs dŵr bychan yn rhedeg ochr yn ochr ag ef sydd â risg o lifogydd dŵr wyneb.

7.2.6 Ystyriwyd y gellid symud Castle Cottage o'r ffin oherwydd maint y plot a'i leoliad ar ymyl yr anheddiad. Ymhellach, gallai ymyl deheuol ffin y pentref orffen wrth ymyl y Neuadd Bentref, gan fod y llain o dir gwag rhyngddi a Walnut Cottage yn torri ar ffurf yr anheddiad.

### *Hanes Cynllunio*

7.2.7 Mae nifer o ddatblygiadau ar raddfa fach wedi'u cynnig, sydd wedi cael eu tynnu'n ôl neu eu gwrthod. Y prif bryderon oedd yr effaith ar ddiogelwch priffyrdd oherwydd lôn gul a'r potensial i waethygu llifogydd yn gysylltiedig â chwrs dŵr sy'n rhedeg ar hyd Heol Trefesgob[4].


### *Safleoedd Ymgeisiol*


7.2.8 Mae nifer o safleoedd ymgeisiol wedi'u cyflwyno sydd o fewn ffiniau ward Trefesgob a Langstone. Mae dau o'r rhain gerllaw ffin yr anheddiad, sef y safleoedd â'r cyfeirnodau CS0004 ac CS0056.

### *Argymhelliad*

7.2.9 O ystyried y dystiolaeth uchod, cynigir y dylai Trefesgob gadw ffin anheddiad sy'n dilyn yn fras y ffin a fabwysiadwyd gan y CDLl. Cynigir bod hyn yn cael ei dynhau er mwyn atal datblygiad mewn lleoliadau anaddas a llechfeddiannu ar gefn gwlad. Nid yw'r naill na'r llall o'r ddau safle ymgeisiol yn briodol i'w cynnwys yn ffin yr anheddiad oherwydd eu perthynas â'r anheddiad presennol. Mae safle ymgeisiol CS0004 yn cynnwys 0.4 hectar, ond argymhellir na ddylid ymgorffori'r safle yn y ffin oherwydd ei berthynas â'r anheddiad presennol. Pe bai CS-0056 yn cael ei ddwyn ymlaen fel dyraniad, dylai gael ei gynnwys.

[4] Mae ceisiadau cynllunio enghreifftiol yn cynnwys: 14/0226, 11/0813, 10/0627




| MAP KEY | |
|---|---|
| Existing village boundary | |
| Proposed boundary alterations | |
| Proposed Candidate Sites | |

## 7.3 Underwood

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.3.1 Stad o dai ar ôl y rhyfel yw Underwood, sydd ar wahân i brif ardal drefol Casnewydd. Mae'n cael ei wasanaethu'n dda gan gyfleusterau a gwasanaethau presennol yn y ganolfan leol oddi ar Birch Grove. O ganlyniad, sgoriodd yn uchel yn yr asesiad gyda sgôr o 57, gan ei osod yn ail yn gyffredinol. O fewn y pentref, mae canolfan iechyd, siopau lleol, fferyllfa, eglwys, caeau chwarae a meysydd chwarae i blant. Mae Ysgol Gynradd Llanfarthin wedi'i lleoli i'r de-ddwyrain o'r pentref ynghyd â chlwb chwaraeon. Caeodd hen ganolfan hamdden wedi'i lleoli ger Ffos y Mynachod ac mae bellach mewn perchnogaeth breifat. Mae'r safle mewn cyflwr gwael ar hyn o bryd.

7.3.2 Mae gwasanaeth bws rheolaidd yn darparu mynediad i Langstone a Chasnewydd ac mae'r pentref o fewn parth gwasanaeth bws Fflecsi.

### *Ymweliad Safle*

7.3.3 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd pa mor gyfyng yw'r pentref gan ei fod wedi'i amgylchynu gan goetir i'r de, y draffordd i'r dwyrain a Ffos y Mynachod i'r gogledd. Mae rhai cyfleoedd ar gyfer datblygiad ar raddfa fach, a gallai'r tir sy'n cwmpasu'r ganolfan leol ddarparu cyfle ailddatblygu yn y dyfodol.

### *Hanes Cynllunio*

7.3.4 Mae ceisiadau blaenorol yn cynnwys cais i ddisodli'r ganolfan hamdden gan ganolfan gynadledda a llety cysylltiedig. Gwrthodwyd hyn oherwydd pryderon yn ymwneud â pherygl llifogydd a mwy o fregusrwydd oherwydd defnydd preswyl[5]. Mae gan y safle gwag broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar hyn o bryd.


### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.3.5 Cyflwynwyd nifer o safleoedd ymgeisiol sydd o fewn ffiniau ward Trefesgob a Langstone. Dim ond un sydd gerllaw ffin yr anheddiad, sef y safle â'r cyfeirnod CS0032. Mae hwn yn safle mawr sydd ond yn ffinio'n rhannol â'r anheddiad presennol ac nid yw'n briodol i'w ymgorffori yn ffin yr anheddiad. Mae CS0017 hefyd gerllaw, ond mae traffordd yr M4 yn gweithredu fel rhwystr ffisegol rhwng ffin bresennol y pentref a'r safle.

### *Argymhelliad*

7.3.6 O ystyried y dystiolaeth uchod, cynigir y dylai Underwood gadw ffin anheddiad. Oherwydd y cyfyngiadau ffisegol o amgylch y pentref, dylai'r ffin ddilyn y ffin fabwysiedig, gan nad oes llawer o le i newid.

[5] Cais cynllunio 19/1140


MAP KEY
Existing village boundary
Proposed Candidate Sites
CS-0032
CS-0017a
N
WALTWOOD ROAD
BIRCH GROVE
HAWTHORN CLOSE
MAPLE CLOSE
BEECH CLOSE
WILLOW DRIVE
Monks' Ditch
Ysgol Gynradd Llanfarthin / Llanmartin Primary School
The Routes
Station
Sinks
Issues
Reservoirs

## 7.4 Y Redwig

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.4.1 Anheddiad anghysbell sydd wedi'i leoli ar Wastadeddau Cil-y-coed, 13 km o Ganol Dinas Casnewydd ac yn agos at y ffin â Sir Fynwy yw'r Redwig.

7.4.2 Mae'r ffurf adeiledig yn gyffredinol wedi'i ganoli o amgylch Eglwys Sant Thomas ac mae yno ganolfan gymunedol gymharol newydd a thafarn gyda maes chwarae i blant. Heblaw am y rhain, nid oes unrhyw wasanaethau na chyfleusterau nodedig, ac nid yw'r pentref yn cael ei wasanaethu gan unrhyw lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus. Oherwydd diffyg gwasanaethau a chyfyngiadau sylweddol, cafodd y pentref sgôr isel o 0 yn yr asesiad.

7.4.3 Mae'r pentref cyfan yn dod o fewn parth amddiffynnol TAN15 ac yn unol â pholisi cenedlaethol, mae datblygiad maes glas yn annhebygol o fod yn addas. Mae'r ffosydd draenio o amgylch y pentref yn darparu draeniad ar draws y Gwastadeddau ac yn cyfyngu'n ddifrifol ar botensial datblygu yn yr ardal.

7.4.4 Yn ôl mapiau Dŵr Cymru, nid yw'r pentref wedi'i gysylltu â'r system draenio dŵr budr ac felly mae'n dibynnu ar danciau septig.

### *Ymweliad Safle*

7.4.5 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd bod y datblygiad yn weddol wasgaredig ac felly ni fyddai llawer o'r ffermydd a'r tai ar gyrion y pentref yn nodwedd o fewn unrhyw ffin anheddiad gan nad ydynt yn ffurfio rhan o ffurf glir yr ardal adeiledig. Yn yr achos hwn, roedd ffin bentref i'w hadfer. Gallai ddod i ben yn Green Court ar South Row, gan fod toriad amlwg yn y datblygiad o'r ffermydd a'r anheddau y tu hwnt i The Haven. Ni fyddai defnyddiau tir amaethyddol yn bennaf, megis Church Farm, yn addas i'w cynnwys o fewn ffin anheddiad.


### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.4.6 Mae safleoedd ymgeisiol CS-0034, CS0035 ac CS-0039 wedi'u cyflwyno yn ward Llan-wern. Gallai bwrw ymlaen â'r cynigion a gyflwynwyd ar gyfer y rhain arwain at newid ffurf adeiledig y Redwig pe bai'n cael ei ddwyn ymlaen.

7.4.7 Mae safleoedd ymgeisiol CS-0034 ac CS0035 yn cynnig adfer ffin a newid cysylltiedig i gynnwys parseli o dir ar gyfer datblygiad preswyl. Mae'r ddau safle hwn yn fach eu maint ac o safbwynt gofodol gallai CS-0035 fod yn briodol i'w hymgorffori yn ffin anheddiad pe bai un yn cael ei hadfer.

### *Argymhelliad*

7.4.8 Argymhellir na ddylid adfer ffin anheddiad ar gyfer y Redwig oherwydd diffyg gwasanaethau a chyfleusterau, ynghyd â nifer o gyfyngiadau sylweddol y dylid eu hamddiffyn rhag effeithiau sy'n deillio o ddatblygiadau newydd. Mae safle ymgeisiol CS-0039 sy'n cynnwys pentref y Redwig a'r cyffiniau yn argymell y dylai Gwastadeddau Cil-y-coed gael mwy o amddiffyniad. Mae'r Gofrestr Safleoedd Posibl yn rhoi mwy o fanylion. Gan nad yw'n cael ei ystyried yn briodol i adfer ffiniau, argymhellir peidio â bwrw ymlaen ag CS-0034 ac CS-0035. Mae'r safleoedd hyn yn destun cyfyngiadau mawr ac maent wedi'u lleoli o fewn ardaloedd risg llifogydd a Gwastadeddau Gwent - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y Redwig a Llandyfenni, sy'n ffurfio'r cyfyngiadau ehangach ar y gymuned wledig.




*Noder:* Ar hyn o bryd nid oes ffin bentref yn y Redwig a'r argymhelliad yw na ddylid cyflwyno un.

## 7.5 Parc Seymour

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.5.1 Anheddiad bach yw Parc Seymour, sydd wedi'i leoli o fewn Ardal Tirwedd Arbennig Coed Gwent, i'r gogledd o'r A48 Heol Cas-gwent yng ngogledd-ddwyrain Casnewydd.

7.5.2 O ran gwasanaethau, mae gan y pentref siop gymunedol fechan sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr sydd ar agor am ychydig oriau bob dydd, ac mae siop goffi y drws nesaf. Mae tafarn y Groes Wen a Chapel y Bedyddwyr wedi eu lleoli ar y ffordd fawr ac o fewn pellter cerdded diogel i ganol y pentref, er bod y ddau wedi eu lleoli y tu allan i ffin y pentref. Nid oes unrhyw gyfleusterau nodedig eraill yn y pentref.

7.5.3 Gwasanaethir y pentref gan lwybr bws rheolaidd, y rhif 73, sy'n mynd o amgylch Greenmeadow Drive ac yn rhedeg rhwng Cas-gwent a Chasnewydd.

7.5.4 Cafodd Parc Seymour sgôr cymharol uchel o 37 yn yr asesiad gan ennill y seithfed safle yn gyffredinol. Roedd hyn yn debygol o ganlyniad i gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da a llai o gyfyngiadau.

### *Ymweliad Safle*

7.5.5 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd bod y ffin bresennol wedi ei thynnu'n eithaf tynn o amgylch y pentref. Ym mhen gogleddol y pentref mae High Croft, Silver Birches, Meadow View a The White House i gyd wedi'u lleoli ar leiniau mawr o dir a gellid tynhau ffin y pentref ymhellach trwy hepgor y pedwar eiddo hyn ynghyd â'r man gwyrdd y tu ôl i Glos Greenmeadow.

7.5.6 Dylai Green Meadow Farm, White Lodge a Trinco sydd wedi'u lleoli ar ymyl orllewinol ffin yr anheddiad aros y tu allan i'r ffin gan eu bod yn amlwg ar wahân i weddill y pentref.


### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.5.7 Mae tir a nodwyd yng nghyflwyniad safle ymgeisiol CS0037 yn ceisio dynodi Ardal Tirwedd Arbennig Coed Gwent yn llain las. Mae'r ardal sydd i'w hamddiffyn oherwydd ei natur agored a'i dynodi'n llain las ar gyfer de-ddwyrain Cymru i'w phenderfynu drwy Gynllun Datblygu Strategol (CDS). Rôl y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw osgoi cyfeirio datblygiad ar raddfa fawr tuag at yr ardal sy'n cael ei hystyried ar gyfer llain las gan Gynllun Datblygu Strategol De-ddwyrain Cymru, yn unol â Cymru'r Dyfodol.

7.5.8 Nid oes unrhyw safleoedd ymgeisiol sy'n cynnig datblygu yn y lleoliad hwn, sy'n awgrymu na fydd angen i unrhyw ffin adlewyrchu unrhyw dir a neilltuwyd ar gyfer datblygu.

### *Argymhelliad*

7.5.9 Dylid cadw'r ffin fabwysiedig i adlewyrchu ffurf adeiledig y pentref. Gellid tynhau'r ffin o amgylch Parc Cottage, High Croft a Silver Birches i adlewyrchu'r cwrtil preswyl ffisegol yn well ac atal cyfleoedd ar gyfer datblygiad amhriodol neu lechfeddiannu ar gefn gwlad. Mae safle ymgeisiol CS0037, sy'n amgylchynu Parc Seymour, yn cynnig y dylid dynodi Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Coed Gwent yn llain las (gweler y Gofrestr Safleoedd Posib am fanylion).




*Noder: Mae CS0037 yn gynnig i Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Coed Gwent gael statws llain las. Mae hwn yn amgylchynu ffin bentref bresennol Parc Seymour.*

## 7.6 Pen-hw

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.6.1 Mae gan y pentref ffurf hirgul, linellol sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r A48 Heol Cas-gwent, i'r gogledd-ddwyrain o Gasnewydd. Mae Ardal Tirwedd Arbennig Coed Gwent yn gorwedd i'r gogledd o'r A48 ac yn ymgorffori'r tai sydd yn gorwedd yr ochr yma i'r pentref.

7.6.2 O fewn y pentref mae canolfan gymunedol Neuadd Sant Ioan ac un uned fasnachol lle mae parlwr tatŵ. Mae tafarn y Rock and Fountain tua 1 km o ymyl dwyreiniol y pentref ac yn ddigon agos i gael ei gyfrif fel amwynder.

7.6.3 Mae gwasanaeth bws rhif 73 yn gymharol aml ac yn cynnig gwasanaeth bron bob awr rhwng Casnewydd a Chas-gwent. Mae'r pentref wedi'i gysylltu'n dda ar y ffordd i Gasnewydd, er bod y ganolfan leol agosaf 7 km i ffwrdd yn Underwood.

7.6.4 Gosododd yr asesiad sgorio Pen-hw yn y nawfed safle, gan dderbyn sgôr gymedrol o 32, roedd hyn yn debygol oherwydd cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus eithaf da a llai o gyfyngiadau polisi.

### *Ymweliad Safle*

7.6.5 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd nad oes gan y pentref ganolfan benodol oherwydd ei ffurf. Wrth ystyried y ffin wreiddiol a ddiffiniwyd gan y CDU, gallai fod potensial i eithrio South Bank, gan fod yr eiddo hwn yn amlwg ar wahân i weddill y pentref. Ymhellach, ni ddylid cynnwys New Village Farm a Meadow Brook gan fod y rhain yn amaethyddol yn bennaf.

7.6.6 Yn gyffredinol, er ei fod wedi'i leoli ar gefnffordd fawr gyda thrafnidiaeth gyhoeddus, mae'r pentref gryn bellter o wasanaethau a chyfleusterau pwysig.


### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.6.7 Mae cyflwyniadau safle sydd â'r cyfeirnodau CS0008 ac CS0023 ger Pen-hw a gallent gael eu gwasanaethu gan yr anheddiad ei hun, er nad yw'r rhain yn ddigon agos i effeithio ar unrhyw ddynodiad ffin.

7.6.8 Mae tir a nodwyd yng nghyflwyniad safle ymgeisiol CS0037 yn ceisio dynodi Ardal Tirwedd Arbennig Coed Gwent yn llain las. Mae'r ardal sydd i'w hamddiffyn oherwydd ei natur agored a'i dynodi'n llain las ar gyfer de-ddwyrain Cymru i'w phenderfynu drwy Gynllun Datblygu Strategol (CDS). Rôl y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw osgoi cyfeirio datblygiad ar raddfa fawr tuag at yr ardal sy'n cael ei hystyried ar gyfer llain las gan Gynllun Datblygu Strategol De-ddwyrain Cymru, yn unol â Cymru'r Dyfodol.

### *Argymhelliad*

7.6.9 Argymhellir na ddylid adfer ffin anheddiad ar gyfer Pen-hw oherwydd gwasanaethau a chyfleusterau cyfyngedig yn y pentref, ar y cyd â'i ffurf wasgaredig. Mae Safle Ymgeisiol CS-0037 sydd i'r gogledd o Heol Cas-gwent yn cynnig bod Ardal Tirwedd Arbennig Gwynllŵg yn cael ei dynodi'n llain las (gweler y Gofrestr Safleoedd Posib am fanylion).




*Noder: Mae CS0037 yn gynnig i Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Coed Gwent gael statws llain las. Saif hwn i'r gogledd o Heol Cas-gwent.*

## 7.7 Llanfaches

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.7.1 Pentref gwledig anghysbell yw Llanfaches, sydd wedi'i leoli i'r gogledd o'r A48 Heol Cas-gwent, yng nghornel ogledd-ddwyreiniol bellaf Casnewydd, yn agos at y ffin â Sir Fynwy. Mae'r cyfan o'r ardal leol o amgylch ffin y pentref o fewn Ardal Tirwedd Arbennig Coed Gwent. Mae hyn yn awgrymu bod unrhyw ehangu allanol i'r pentref yn debygol o fod yn anaddas.

7.7.2 Mae gwasanaeth bws rhif 73 yn rhedeg ar hyd yr A48, nid oes llwybr troed amlwg ar hyd Heol y Tabernacl sy'n cysylltu'r pentref â'r arosfannau bysiau ar yr A48, gan ei gwneud yn anaddas i gerddwyr gael mynediad diogel i'r gwasanaeth hwn.

7.7.3 Mae eglwys Sant Dubritius a'r neuadd bentref/canolfan gymunedol gysylltiedig wedi'u lleoli yn y pentref, ond nid oes unrhyw gyfleusterau nodedig eraill megis siopau nac ysgolion yn amlwg. Mae'r ganolfan leol agosaf tua 6 km i ffwrdd, dros y ffin ym Magwyr, Sir Fynwy. Mae hyn yn awgrymu bod y gymuned yn tueddu i ddibynnu ar geir i gael mynediad at y cyfleusterau hyn.

7.7.4 Yn yr asesiad sgorio roedd yn y deuddegfed safle a chafodd sgôr gymedrol o 29. Mae Llanfaches yn destun ffin datblygu pentref mabwysiedig.

### *Ymweliad Safle*

7.7.5 Yn ystod yr ymweliad, nodwyd bod y lonydd gwledig sy'n arwain at y pentref yn gul. Trac sengl yw'r rhan fwyaf ohonynt ac felly maent yn annhebygol o fod yn addas ar gyfer traffig ychwanegol neu fynediad i gerddwyr.

7.7.6 Mae llawer o'r eiddo, gan gynnwys yng nghanol y pentref, wedi'u lleoli ar leiniau eithaf mawr o dir, sy'n awgrymu y gallai ffin anheddiad arwain at ddatblygiad mewnlenwi amhriodol.

### *Hanes Cynllunio*

7.7.7 Mae datblygiad cyfyngedig wedi digwydd yn Llanfaches yn y blynyddoedd diwethaf. Un enghraifft o ddatblygiad yw Lime Kiln Court ar ymyl gorllewinol y pentref. Darparodd hyn bedwar cartref teuluol modern wrth ymyl cae hamdden. Fel arall, ni fu unrhyw ddatblygiad mawr yn y pentref. Ymhellach, ni ddarparwyd unrhyw gyfleusterau cymunedol ychwanegol yn y blynyddoedd diwethaf.


### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.7.8 Mae'r safle â'r cyfeirnod CS0009 wedi'i leoli ar gyrion y pentref a bydd yn cael ei asesu ar gyfer datblygiad preswyl trwy'r broses Asesu Safleoedd Posib. Fodd bynnag, ni fydd yn addas i'w ddyrannu os nad yw cadw ffin y pentref yn cael ei ystyried yn briodol, byddai'r safle wedyn o fewn cefn gwlad agored ac i ffwrdd o unrhyw ffiniau anheddiad diffiniedig.

7.7.9 Mae tir a nodwyd yng nghyflwyniad safle ymgeisiol CS0037 yn ceisio dynodi Ardal Tirwedd Arbennig Coed Gwent yn llain las. Mae'r ardal sydd i'w hamddiffyn oherwydd ei natur agored a'i dynodi'n llain las ar gyfer de-ddwyrain Cymru i'w phenderfynu drwy Gynllun Datblygu Strategol (CDS). Rôl y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw osgoi cyfeirio datblygiad ar raddfa fawr tuag at yr ardal sy'n cael ei hystyried ar gyfer llain las gan Gynllun Datblygu Strategol De-ddwyrain Cymru, yn unol â Chymru'r Dyfodol.

### *Argymhelliad*

7.7.10 O ganlyniad i'r asesiad, argymhellir dileu ffin ddatblygu Llanfaches, oherwydd ei sefyllfa i ffwrdd o wasanaethau hanfodol a chysylltiadau trafnidiaeth gwael.




*Noder: Yr argymhelliad ar gyfer Llanfaches yw cael gwared ar y ffin bresennol a ddangosir mewn du.*

## 7.8 Llandyfaud

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.8.1 Cymuned wledig yw Llandyfaud, sydd wedi'i lleoli i'r de o'r A48 Heol Cas-gwent ac i'r gogledd o draffordd yr M4, tua 10 km i'r gogledd-ddwyrain o Gasnewydd. Ar hyn o bryd nid oes gan Llandyfaud ffin anheddiad diffiniedig at ddibenion rheoli datblygu.

7.8.2 Mae gwasanaeth bws rheolaidd yn rhedeg ar hyd yr A48 rhwng Cas-gwent a Chasnewydd ac mae'r safle bws tua 500 m o ymyl ogleddol y pentref, ond mae'r ffordd yn gul heb unrhyw lwybr troed, sy'n ei gwneud yn anodd i gerddwyr gael mynediad diogel i'r gwasanaeth hwn.

7.8.3 Ar hyd yr A48, mae siop geir, bwyty ac Eglwys San Pedr. Dyma'r unig wasanaethau nodedig o fewn cilometr i ffin y pentref. Mae'r ganolfan leol agosaf tua 4 km i ffwrdd yn Underwood, felly mae'n debygol y byddai'r rhan fwyaf o drigolion yn dibynnu ar geir i gael mynediad at wasanaethau hanfodol.

7.8.4 Yn yr asesiad sgorio roedd yn y deuddegfed safle a chafodd sgôr gymedrol o 32.

### *Ymweliad Safle*

7.8.5 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd bod y ffyrdd sy'n cysylltu â'r pentref yn gul ac mai trac sengl ydynt yn gyffredinol, ac felly'n debygol o fod yn anaddas ar gyfer mwy o draffig a allai ddigwydd o ganlyniad i ddatblygiadau newydd.

7.8.6 Nid oes unrhyw ganolfan amlwg i'r pentref ac mae ei ffurf yn eithaf gwasgaredig. Mae maint y lleiniau preswyl yn amrywio'n sylweddol, er y gall fod potensial ar gyfer rhai datblygiadau ar raddfa fach ar leiniau mwy.

7.8.7 Mae adeiladau amaethyddol a ffermydd yn gorwedd ar gyrion y pentref a phe bai ffin anheddiad yn cael ei adfer, argymhellir eithrio'r rhain, e.e. Maenordy Fairfield, Fferm Llandyfaud.

### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.8.8 Nid oes unrhyw safleoedd wedi'u cyflwyno a fyddai'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ffin anheddiad, ond mae nifer o safleoedd ymgeisiol wedi'u cyflwyno o fewn ward Trefesgob a Langstone a allai gael eu gwasanaethu gan y pentref. Mae'r rhain yn cynnwys y safleoedd â'r cyfeirnodau CS0008, CS0016, CS0017 ac CS0052.

### *Argymhelliad*

7.8.9 Argymhellir na ddylid adfer ffin anheddiad ar gyfer Llandyfaud oherwydd mynediad gwael at wasanaethau a chyfleusterau a chysylltiadau trafnidiaeth gwael.




*Noder:* Ar hyn o bryd nid oes ffin bentref yn Llandyfaud a'r argymhelliad yw na ddylid cyflwyno un.

## 7.9 Machen Isaf

### *Trosolwg o’r Pentref*

7.9.1 Pentref bychan ar ffin ogledd-orllewinol ardal Awdurdod Lleol Casnewydd yw Machen Isaf. Mae ganddi 19 o dai ac eglwys. Mae gan y pentref amgylchedd hanesyddol cryf ac mae’n ffurfio Ardal Gadwraeth Machen Isaf. I’r gorllewin o’r pentref, ar hyd yr afon, mae Ardal Archaeolegol Sensitif Machen Isaf, sy’n ffurfio cyfyngiad pellach ar yr amgylchedd hanesyddol ac yn cyfyngu ar dwf posibl yn y gymuned wledig hon. Dominyddir canol y pentref gan Dŷ Machen a gerddi ac Eglwys Mihangel Sant sy’n rhestredig gradd II*.

7.9.2 Nid oes unrhyw amwynderau o fewn y pentref. Mae yna ychydig o wasanaethau, gan gynnwys siop gyfleustra, fferyllfa a meddygfa ym Machen cyfagos, sydd wedi’u lleoli dros y ffin ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mae bws rhif 50 yn gwasanaethu’r pentref o’r ffordd fawr. Mae hyn yn darparu cysylltiad bob awr yn ystod yr wythnos rhwng Casnewydd a Chaerffili.

7.9.3 Yn yr asesiad sgorio roedd yn y deuddegfed safle a chafodd sgôr gymedrol o 31.

### *Ymweliad Safle*

7.9.4 Yn ystod yr ymweliad safle nodwyd bod gan y pentref werth hanesyddol cryf a’i fod yn gymharol dawel er ei fod wedi’i leoli oddi ar gefnffordd brysur yr A468.

### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.9.5 Er nad oes unrhyw safleoedd wedi’u cyflwyno a fyddai’n dylanwadu’n uniongyrchol ar ffin anheddiad, mae sawl safle ymgeisiol wedi’u cyflwyno yn ward Graig ger Basaleg.

### *Argymhelliad*

7.9.6 Argymhellir na ddylid cyflwyno ffin anheddiad ar gyfer Machen Isaf, oherwydd ei natur fach a’i werth hanesyddol ac archaeolegol cyfoethog.




*Noder: Ar hyn o bryd nid oes ffin bentref ym Machen Isaf a'r argymhelliad yw na ddylid cyflwyno un.*

## 7.10 Trefonnen

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.10.1 Mae Trefonnen 2 km y tu allan i brif ardal adeiledig Casnewydd ar Wastadeddau Cil-y-coed. Yn ogystal â'r pentref ei hun, mae'r plwyf yn cynnwys gorsaf bŵer Aber-wysg a rhan o Warchodfa Gwlyptiroedd Casnewydd. I'r gorllewin saif pentrefi Allteuryn a Whitson.

7.10.2 Ar y llanw uchaf, mae'r pentref yn gorwedd o dan lefel y môr ac mae wedi'i leoli o fewn parth amddiffynnol TAN15. Yn unol â pholisi cenedlaethol, mae datblygiad tir glas yn annhebygol o fod yn briodol o fewn y pentref o ganlyniad. Mae'r ardal gyfan yn cael ei draenio gan rwydwaith helaeth o ffosydd draenio rhyng-gysylltiedig, sy'n debygol o rwystro datblygiad newydd yn yr ardal serch hynny.

7.10.3 Yr unig wasanaethau nodedig yn union o fewn ffin y pentref yw tafarn y Waterloo a neuadd gymunedol. Mae maes chwarae/hamdden ar Heol y Santes Fair sy'n dir gwarchodedig ac yn eiddo i'r Cyngor Cymuned.

7.10.4 Yn yr asesiad sgorio roedd yn y deuddegfed safle a chafodd sgôr gymedrol o 21. Mae'r sgôr annisgwyl o uchel yn debygol oherwydd agosrwydd y pentref at y ffin drefol a mwynderau ar gyrion y ddinas. Er enghraifft, dim ond 4 km i ffwrdd y mae Parc Manwerthu Spytty ac mae'n darparu ystod o wasanaethau. Er hyn, prin yw'r cyfleusterau o fewn y pentref ei hun.

### *Ymweliad Safle*

7.10.5 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd bod y tai presennol yn gymharol wasgaredig gydag ardaloedd eang o lecynnau agored, sy'n bennaf oherwydd daearyddiaeth y pentref gyda'r ffosydd draenio a ffosydd sy'n gweithredu fel ffiniau naturiol, ffisegol. Mae Eglwys y Santes Fair a thafarn y Waterloo yn ganolbwynt i'r pentref. Er gwaethaf ei hagosrwydd at y ffin drefol, mae gan Drefonnen gymeriad gwledig. Mae'n dod o fewn nifer o ddynodiadau tir, gan gynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.

### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.10.6 Er na chyflwynwyd unrhyw safleoedd a fyddai'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ffin anheddiad, mae sawl safle ymgeisiol wedi'u cyflwyno yn ward Llan-wern sy'n gysylltiedig yn bennaf â safle'r hen waith dur.

### *Argymhelliad*

7.10.7 Argymhellir na ddylid cyflwyno ffin anheddiad ar gyfer Trefonnen, oherwydd ei natur fach a'i leoliad sensitif.




*Noder: Ar hyn o bryd nid oes ffin bentref yn Nhrefonnen a'r argymhelliad yw na ddylid cyflwyno ffin bentref. Mae safle ymgeisiol CS-0039, sy'n cynnwys pentref Trefonnen a'r cyffiniau, yn argymell y dylai Gwastadeddau Cil-y-coed gael mwy o amddiffyniad (gweler y Gofrestr Safleoedd Posibl am ragor o fanylion).*

## 7.11 Allteuryn

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.11.1 Nodweddir y pentref gan ddatblygiad llinellol. Mae iddo ffurf hirgul a gwasgaredig ar hyd Heol Allteuryn, sef y brif ffordd drwy'r pentref. Nid oes ganddo unrhyw lwybr trafnidiaeth gyhoeddus, er ei fod yn dod o fewn y 'Parth Teithio sy'n Ymateb i'r Galw' ac mae bws ysgol yn gwasanaethu'r pentref.

7.11.2 Mae'r pentref cyfan wedi'i leoli o fewn parth amddiffynnol TAN15. Yn unol â pholisi cenedlaethol, mae datblygiad tir glas yn annhebygol o fod yn briodol o fewn y pentref o ganlyniad. Mae'r ardal gyfan yn cael ei draenio gan rwydwaith helaeth o ffosydd draenio rhyng-gysylltiedig. Gorwedd y rhan fwyaf o Allteuryn o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent ac i'r de o Heol Allteuryn y mae'r Warchodfa Natur Genedlaethol.

7.11.3 Mae yna dafarn bentref o'r enw The Farmers Arms ac eglwys, ond nid oes unrhyw amwynderau nodedig eraill.

7.11.4 Yn yr asesiad sgorio sgoriodd yn isel iawn gyda sgôr negyddol o -1 oherwydd cyfyngiadau tir, dim trafnidiaeth gyhoeddus ac ychydig wasanaethau nodedig.

### *Ymweliad Safle*

7.11.5 Yn ystod yr ymweliad safle nodwyd bod y pentref yn eithriadol o wledig. Mae cyfleoedd datblygu yn gyfyngedig iawn oherwydd perygl llifogydd afonol a dynodiadau tir.

7.11.6 Tynnwyd ffin y pentref trwy fabwysiadu'r CDLl. Yn yr adolygiad blaenorol o ffiniau aneddiadau yn 2013, argymhellwyd bod y ffin yn cael ei thynhau. Argymhellwyd symud tir i'r dwyrain o Boxtree Cottage rhwng Heol Allteuryn a Saltmarsh Reen, yn ogystal â rhywfaint o'r tir sy'n eiddo i Cartref.

### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.11.7 Er na chyflwynwyd unrhyw safleoedd a fyddai'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ffin anheddiad, mae sawl safle ymgeisiol wedi'u cyflwyno yn ward Llan-wern o amgylch safle'r gwaith dur.

### *Argymhelliad*

7.11.8 Argymhellir na ddylid cyflwyno ffin anheddiad ar gyfer Allteuryn, oherwydd ei leoliad anghysbell a sensitif.




*Noder: Ar hyn o bryd nid oes ffin bentref yn Allteuryn a'r argymhelliad yw na ddylid cyflwyno ffin bentref. Mae safle ymgeisiol CS-0039 sy'n cynnwys pentref Trefonnen a'r cyffiniau yn argymell y dylai Gwastadeddau Cil-y-coed gael mwy o amddiffyniad (gweler y Gofrestr Safleoedd Posibl am ragor o fanylion).*

## 7.12 Christchurch

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.12.1 Pentref sydd wedi'i leoli'n agos at ymyl ogleddol y ddinas ar ben Christchurch Hill yn ward Caerllion yw Christchurch. Yr unig amwynderau nodedig o fewn ffin y pentref yw tafarn The Greyhound Inn, y neuadd gymunedol ac Eglwys y Drindod Sanctaidd.

7.12.2 Mae gwasanaeth bws rhif 20 sydd ag amledd isel yn gwasanaethu'r pentref rhwng Casnewydd a Llyswyry.

7.12.3 Yn yr asesiad sgorio roedd yn y safle uchaf gyda sgôr o 78. Mae hyn yn bennaf oherwydd ei agosrwydd at Ganolfan Ardal Beechwood sydd tua 2 km i ffwrdd. Mae topograffeg y pentref a'r ardal gyfagos yn awgrymu, er ei fod yn weddol agos at ganolfannau lleol ac ardal, y gallai mynediad drwy gerdded a beicio fod yn heriol. Mae'r siop gyfleustra agosaf ar Heol Cas-gwent ac mae canolfan leol arall 2 km i ffwrdd yn Ringland.

### *Ymweliad Safle*

7.12.4 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd nad oes gan Christchurch Road lwybrau troed di-dor ac felly ei fod yn broblematig i gerddwyr. Mae'r ffordd yn gymharol brysur gyda thraffig.

7.12.5 Gan fod y pentref ar ben bryn, mae'r rhan fwyaf o ddynesiadau at y pentref yn serth ac felly mae unrhyw ehangiad deheuol o'r pentref yn debygol o fod yn anaddas. Mae'r M4 hefyd yn rhedeg gerllaw ac yn dynodi paramedr y ffin drefol. Mae materion ansawdd aer yn gysylltiedig â'r rhan hon o'r M4, ond mae drychiad y gymuned yn awgrymu nad yw'n effeithio'n uniongyrchol ar y gymuned.


7.12.6 Er gwaethaf agosrwydd y pentref at y ffin drefol, mae yna wahaniaeth amlwg oddi wrth weddill yr ardal drefol ac mae gan y pentref ei gymeriad cymunedol ei hun. Serch hynny, gellir dadlau pe bai'r pentref yn ehangu, gellid ei ymgorffori o fewn y ffin drefol, ond byddai'n rhaid ystyried hyn yn ofalus.

### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.12.7 Gallai'r safleoedd â'r cyfeirnodau CS0005 ac CS0041 ddylanwadu'n uniongyrchol ar leoliad ffin bentref petaent yn cael eu cyflwyno fel dyraniadau. Mae safle ymgeisiol CS0007 wedi'i leoli'n rhannol o fewn ffin yr anheddiad ac yn ymestyn allan. Mae'r safle hwn yn rhy fach i'w ystyried drwy'r broses asesu Safleoedd Posib ac mae i'w ystyried gan y gwerthusiad hwn i'w gynnwys mewn unrhyw ffin.

### *Argymhelliad*

7.12.8 Argymhellir bod Christchurch yn cadw ei ffin bentref. Ni chynigir unrhyw ddiwygiadau, ond dylid gwneud unrhyw ddiwygiadau i adlewyrchu dyraniadau safle. Nid yw'r rhain yn ffurfio rhan o ffin arfaethedig y pentref ar hyn o bryd. Mae safle ymgeisiol CS0007 y tu ôl i anheddau sydd eisoes yn bodoli ac nid yw'n ffurfio cynhwysiad rhesymegol o fewn ffin yr anheddiad.




| MAP KEY | |
|---|---|
| Existing village boundary | |
| Proposed Candidate Sites | |

*Noder: Nid oes unrhyw ddiwygiadau'n cael eu hargymell ar hyn o bryd i ffin bentref Christchurch, felly mae'r ffin arfaethedig yr un fath â'r ffin bresennol.*

## 7.13 Cas-bach

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.13.1 Pentref ar yr A48 yw Cas-bach, yn agos at ffin Casnewydd â Chaerdydd. Mae ganddo bentref cyfagos mwy o faint, sef Maerun, ac mae cysylltiad agos rhwng y ddwy gymuned hyn. Mae ffin bentref Cas-bach wedi'i hamgylchynu gan letem las i'r gogledd a'r dwyrain a llain las i'r de a'r gorllewin, felly mae'r ddau ddynodiad polisi hyn yn cyfyngu i raddau helaeth ar unrhyw botensial ar gyfer ehangu allanol.

7.13.2 Mae gwasanaethau nodedig yn y pentref yn cynnwys gorsaf betrol ESSO a siop gyfleustra; Ysgol Gynradd Maerun; Neuadd Bentref a meithrinfa; Eglwys y Bedyddwyr; gwesty; a bwyty Beefeater. Gwasanaethir y pentref hefyd gan wasanaeth bws rhif 30 rheolaidd rhwng Casnewydd a Chaerdydd sy'n rhedeg bob 30 munud ar adegau prysur.

7.13.3 Mae cefnffordd yr A48 yn croesi'r pentref a chysylltiad y pentref â Chasnewydd a Chaerdydd. Mae'n sgorio'n uchel am gysylltedd ac mae ganddi fwy o wasanaethau nag aneddiadau o faint tebyg.

7.13.4 Yn yr asesiad sgorio sgoriodd yn uchel gyda sgôr o 69. Mae hyn yn bennaf oherwydd mynediad trafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal ag agosrwydd at amwynderau gyda'r pentref a Maerun cyfagos.

### *Ymweliad Safle*

7.13.5 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd bod rhaniad amlwg yn dal i fodoli er gwaethaf yr agosrwydd rhwng Maerun a Chas-bach, sy'n haeddu ffiniau aneddiadau ar wahân.

7.13.6 Mae ffordd yr A48 yn brysur iawn ac er bod llwybrau troed ar hyd y ffyrdd gwasanaethu, mae'n rhannu'r pentref ac yn ei gwneud yn anodd i gerddwyr groesi. Mae pont droed yn bodoli ar y gyffordd â Heol Maerun.

### *Hanes Cynllunio*


7.13.7 Mae Cas-bach a Maerun wedi gweld nifer o ddatblygiadau ar gyrion aneddiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cadwyd ffin y pentref trwy fabwysiadu'r CDLl. Nid yw'r ffin yn cynnwys adeiladau amaethyddol ar ddiwedd Walk Farm Drive, Sandy Lane Farm i'r de, er ei bod yn ymddangos yn breswyl yn bennaf, ac eiddo ar ddiwedd Lôn y Popty (ffordd breifat) gan fod ganddynt leiniau o dir o faint hael sydd ar wahân i brif ganolfan y pentref.

### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.13.8 Mae'r safleoedd â'r cyfeirnodau CS0042 ac CS0063 yn cynnig datblygiad preswyl a gallent ddylanwadu'n uniongyrchol ar ffin bentref Cas-bach pe bai'n cael ei ddwyn ymlaen fel dyraniadau. Mae cyflwyniad safle CS0038 yn ceisio cynnal y dynodiad tir llain las presennol rhwng Casnewydd a Chaerdydd, gan ddylanwadu ymhellach ar lunio ffin yn y dyfodol.

### *Argymhelliad*

7.13.9 Argymhellir bod Cas-bach yn cadw ei ffin bentref. Mae Cas-bach yn elwa o fynediad da at wasanaethau yn y pentref ac ym Maerun gerllaw. Mae trafnidiaeth gyhoeddus weddol dda a chysylltiadau ffyrdd presennol o fewn yr anheddiad a allai gynnal lefel briodol o dwf yn y dyfodol. Dylid gwneud unrhyw newidiadau yn yr amgylchiadau pan fydd ffiniau'r llain las neu'r lletem las yn cael eu diwygio a bod safleoedd ymgeisiol yn cael eu symud ymlaen.




*Noder: Mae safle ymgeisiol CS0038 ar gyfer llain las sy'n gorchuddio tir i'r gorllewin a'r gogledd o'r pentref.*

## 7.14 Maerun

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.14.1 Maerun yw pentref mwyaf Casnewydd ac mae wedi'i leoli'n agos at y ffin â Chaerdydd. I'r gogledd o'r pentref mae pentref cyfagos Cas-bach ac i'r de, y tu hwnt i'r rheilffordd, mae Gwastadeddau Gwynllŵg.

7.14.2 Saif y llain las i'r gorllewin o'r pentref a'r lletem las i'r gogledd a'r dwyrain. Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent i'r de. Mae'r rhain yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer ehangu allanol.

7.14.3 Mae nifer o amwynderau ym Maerun, gan gynnwys canolfan gymunedol a maes hamdden ar Heol Wellfield, siop a fferyllfa ar Heol Maerun a thafarn The Masons Arms ar Heol Llaneirwg. Nid oes unrhyw wasanaethau bws yn rhedeg yn uniongyrchol drwy'r pentref, er bod bws rheolaidd rhwng Casnewydd a Chaerdydd yn rhedeg ar hyd yr A48 gyda'r safle bws agosaf yng Nghas-bach. Mae llochesi bws o hen lwybrau bysiau yn parhau i fod yn amlwg ar hyd Heol Maerun.

7.14.4 Yn yr asesiad sgorio sgoriodd yn uchel gyda sgôr o 40. Mae hyn yn bennaf oherwydd agosrwydd at amwynderau o fewn y pentref a Chas-bach cyfagos.

### *Ymweliad Safle*

7.14.5 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd, er maint y pentref, nad oes cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol ar hyn o bryd, sy'n awgrymu ei bod yn debygol y byddai trigolion yn ddibynnol ar geir.

7.14.6 Mae nifer rhesymol o wasanaethau yn y pentref a gall trigolion gael mynediad hawdd at y rheini yng Nghas-bach cyfagos sydd o fewn pellter cerdded.

### *Hanes Cynllunio*


7.14.7 Bu rhywfaint o ddatblygu o fewn ac ar ymyl ffin anheddiad Maerun. Mae enghreifftiau yn cynnwys tir oddi ar Heol Llaneirwg /Orchard Close ac ar gornel Heol Maerun/Lôn yr Eglwys. Datblygiad nodedig lle disodlwyd byngalo gan dai newydd yw 12/1099 (Acorn Place). Mae Ffordd Cambrian Way/Cambrian Drive yn enghraifft dda o estyniad i'r pentref, a gyflwynwyd yn 2004 ar hen safle canolfan arddio (04/0266).

### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.14.8 Mae'r safleoedd â'r cyfeirnodau CS0012, CS0015, CS0021 ac CS0055 yn cynnig datblygiad preswyl ar ymyl Maerun a byddent yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ffin y pentref. Dylid ymgorffori'r rhain yn ffin y pentref rhag ofn iddynt gael eu dwyn ymlaen fel dyraniadau. Mae cyflwyniad CS0038 yn ceisio cadw'r dynodiad tir llain las presennol rhwng Casnewydd a Chaerdydd. Bydd unrhyw ehangu ar y llain las a ddynodwyd ar hyn o bryd yn cael ei benderfynu drwy Gynllun Datblygu Strategol (CDS). Rôl y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw osgoi cyfeirio datblygiad ar raddfa fawr tuag at yr ardal sy'n cael ei hystyried ar gyfer llain las gan y Cynllun Datblygu Strategol, yn unol â Cymru'r Dyfodol.

### *Argymhelliad*

7.14.9 Argymhellir bod Maerun yn cadw ffin ei anheddiad oherwydd ei faint mawr a mynediad gweddol dda at wasanaethau a chyfleusterau. Mae'r ffin arfaethedig yn ymgorffori unrhyw safleoedd ymgeisiol neu unrhyw newidiadau i'r llain las neu'r lletem las.




*Noder: Nid oes unrhyw newidiadau yn cael eu hargymell ar hyn o bryd ar gyfer ffin bentref Maerun, felly mae'r ffin arfaethedig yr un fath â'r ffin bresennol. Mae safle ymgeisiol CS0015 yn cwmpasu CS0012 (a ddangosir mewn lliw coch wedi'i lenwi) a'r darn o dir cyfagos. Cynigir CS0038 ar gyfer ehangu llain las sy'n rhedeg ar hyd holl ffin orllewinol a deheuol y pentref.*

## 7.15 Llan-bedr Gwynllŵg

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.15.1 Anheddiad 10 km o ganol Casnewydd yw Llan-bedr Gwynllŵg. Mae'n agos iawn at forglawdd Gwastadeddau Gwent ac wedi'i adeiladu ar dir wedi'i adennill o Fôr Hafren. Canolbwynt y pentref yw Eglwys Sant Pedr ac mae neuadd gymunedol fechan ar gyffordd y B4259 Heol Gwynllŵg/Clos yr Eglwys. Fodd bynnag, nid oes gan y pentref gymeriad hanesyddol yn gyffredinol gan fod y rhan fwyaf o'r anheddau wedi'u hadeiladu yn ystod y cyfnod ar ôl y rhyfel.

7.15.2 Wedi'i leoli ar Wastadeddau Gwent, mae'r pentref yn agored i lifogydd arfordirol ac mae yno lawer o ffosydd draenio, sy'n bwysig ar gyfer cadwraeth bywyd gwyllt ac i atal llifogydd. Mae Gwastadeddau Gwent yn eu cyfanrwydd mewn parth amddiffynnol TAN15, sy'n cyfyngu ar y potensial ar gyfer datblygiadau newydd ar dir glas yn unol â pholisi cenedlaethol.

7.15.3 Mae'r pentref o fewn tir a ddynodwyd yn llain las (Casnewydd–Caerdydd) gan y CDLl mabwysiedig ac felly mae wedi'i gyfyngu o safbwynt polisi.

7.15.4 Yn yr asesiad sgorio sgoriodd yn isel iawn gyda sgôr o -2. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg amwynderau yn yr ardal, perygl llifogydd a chyfyngiadau polisi eraill y Gwastadeddau.

### *Ymweliad Safle*

7.15.5 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd bod y pentref yn fach iawn ac nad oes gwasanaethau na chludiant cyhoeddus nodedig, sy'n awgrymu ei bod yn debygol bod trigolion yn ddibynnol ar geir.

7.15.6 Mae lleiniau preswyl mawr yn awgrymu risg o ddatblygiad mewnlenwi amhriodol pe bai ffin y pentref yn cael ei hadfer.

7.15.7 Mae'n bentref gweddol linellol ac oherwydd cyfyngiadau daearyddol y safle (ffosydd a ffosydd draenio) mae'r ffurf bresennol yn teimlo'n eithaf gwasgaredig.

### *Hanes Cynllunio*

7.15.8 Mae safle Tafarn y Six Bells yn adfail ar hyn o bryd ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mwyach. Cyflwynwyd cais yn 2021 i addasu'r dafarn yn dri bwthyn, er i'r cais hwn gael ei wrthod (21/0900).

### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.15.9 Nid oes unrhyw safleoedd ymgeisiol wedi'u cyflwyno ar gyfer datblygiad sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ffurf adeiledig Llan-bedr Gwynllŵg, ond mae cyflwyniad CS0038 yn ceisio cadw'r dynodiad tir llain las presennol rhwng Casnewydd a Chaerdydd ac mae'r pentref wedi'i leoli o fewn y dynodiad presennol. Bydd unrhyw newidiadau i'r llain las ddynodedig yn cael eu penderfynu trwy Gynllun Datblygu Strategol (CDS). Rôl y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw osgoi cyfeirio datblygiad ar raddfa fawr tuag at yr ardal sy'n cael ei hystyried ar gyfer llain las gan y Cynllun Datblygu Strategol, yn unol â Chymru'r Dyfodol.

### *Argymhelliad*

7.15.10 Argymhellir na ddylid rhoi ffin anheddiad i Lan-bedr Gwynllŵg. Mae hyn oherwydd ei fod yn lleoliad hynod anaddas ar gyfer datblygiad newydd oherwydd cyfyngiadau yn y lleoliad hwn.




*Noder: Nid oes gan y pentref ffin bentref ar hyn o bryd a'r argymhelliad yw peidio â chyflwyno ffin bentref. Mae gan Wastadeddau Gwynllŵg yn eu cyfanrwydd , sy'n cynnwys pentref Llan-bedr Gwynllŵg, ddau ddynodiad tir a gynigir fel safleoedd ymgeisiol. Mae CS0038 yn cynnig cadw'r llain las presennol rhwng Casnewydd a Chaerdydd fel y dynodwyd gan SP6 y CDLl mabwysiedig, tra bod CS0064 hefyd yn cynnig mwy o warchodaeth ar gyfer y rhan hon o Wastadeddau Gwent (gweler y Gofrestr Safleoedd Posib am ragor o fanylion).*

## 7.16 Llansanffraid Gwynllŵg

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.16.1 Mae'r pentref cyfan wedi'i leoli ar Wastadeddau Gwent ac mae wedi'i ddosbarthu fel un sydd o fewn parth amddiffynnol morol TAN15. Fel pentrefi eraill ar y Gwastadeddau, mae'n dir a adenillwyd o Fôr Hafren.

7.16.2 Nid oes unrhyw wasanaethau wedi'u lleoli yn y pentref, gyda'r siopau lleol agosaf 4 km i ffwrdd yn Dyffryn neu Maerun. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn bellter afresymol i'w gerdded. Nid oes llwybr trafnidiaeth gyhoeddus penodol drwy'r pentref, felly mae trigolion yn gyffredinol yn dibynnu ar geir.

7.16.3 Yn yr asesiad sgorio sgoriodd yn isel iawn gyda sgôr o -3. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg mwynderau yn yr ardal, perygl llifogydd a chyfyngiadau polisi eraill sy'n gysylltiedig â'i leoliad ar y Gwastadeddau.

### *Ymweliad Safle*

7.16.4 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd bod y pentref yn fach iawn ac nad oes gwasanaethau na chludiant cyhoeddus nodedig, sy'n awgrymu ei bod yn debygol bod y trigolion presennol yn ddibynnol ar geir.

7.16.5 Mae ardaloedd agored y tu ôl i Barc Neville a mynwent eglwys y Santes Ffraid ill dau wedi'u dosbarthu fel Mannau Amgylcheddol ac wedi'u diogelu rhag datblygiad yn unol â Pholisi CE3 Mannau a Choridorau Amgylcheddol CDLl 2011-2026. Adeiladau amaethyddol yw'r ardal y tu ôl i'r eglwys yn bennaf ac felly dylid eu heithrio rhag cael eu hymgorffori i unrhyw ffin bentref.

### *Hanes Cynllunio*


7.16.6 Mae hen dafarndy'r Church Inn wedi'i ddisodli gan ddatblygiadau tai ac mae'n enghraifft o ailddatblygu safle gwag.

### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.16.7 Nid oes unrhyw safleoedd ymgeisiol wedi'u cyflwyno i'w datblygu a fyddai'n dylanwadu ar ffin ddatblygu o amgylch Llansanffraid Gwynllŵg.

### *Argymhelliad*

7.16.8 Ni argymhellir dod â ffin datblygu pentref gerbron. Mae datblygiad newydd yn Llansanffraid Gwynllŵg yn annhebygol o fod yn briodol oherwydd ei ddiffyg gwasanaethau, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a chyfyngiadau.


MAP KEY
Existing village boundary
N
St Bridget's Church
Cross
Slurry Bed
Farm
Church View
Sunnybank
Tithe Barn
The Lodge
Lynwood
Harding
Gables
Church Inn
House
Rose House
Cottage
Chapel House
Gas Gov
Bridesvale
Sealand Reen
Elm Tree
Little Acre
NEVILLE PARK
Harwood
Church Cottage
Ty-Ilhwyd
Drain
Track
FB
Sluice

*Noder: Yr argymhelliad ar gyfer Llansanffraid Gwynllŵg yw dileu'r ffin bresennol. Mae safle ymgeisiol CS0064 yn cynnig mwy o amddiffyniad ar gyfer Gwastadeddau Gwent ac mae hyn yn cynnwys Llansanffraid Gwynllŵg a'r tir o amgylch y pentref (gweler y Gofrestr Safleoedd Posib am ragor o fanylion).*

## 7.17 Llan-wern

### *Trosolwg o'r Pentref*

7.17.1 Mae'r pentref wedi'i leoli'n agos at ymyl dwyreiniol Casnewydd ac mae wedi bod yn lleoliad datblygiad maes glas sylweddol yn dilyn dyrannu safle datblygu strategol gan y CDLl. Mae hyn yn ffurfio estyniad trefol i brif ardal drefol y ddinas.

7.17.2 Dros amser mae pentref Llan-wern wedi tyfu mewn datblygiad ffurf hirgul ar hyd Heol yr Orsaf, ond mae cymeriad yr ardal yn newid yn sgil y safleoedd datblygu newydd sydd wedi'u darparu i'r gogledd ac i'r de o Cot Hill.

7.17.3 Nid oes unrhyw amwynderau nodedig na llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus yn y pentref, er ei fod wedi'i leoli 3 km o Ganolfan Ardal Parc Manwerthu Casnewydd ac mae Ysgol Uwchradd Llan-wern 2 km i ffwrdd. Dim ond 2 km i ffwrdd y mae Canolfan Leol Ringland hefyd. Nid yw tafarn Gwesty'r Milton bellach ar agor.

7.17.4 Mae tir i'r dwyrain o bentref Llan-wern ar hyd Ffos y Mynachod wedi'i nodi fel parth llifogydd morol amddiffynnol TAN15 ac felly nid yw ehangu dwyreiniol yn ymarferol.

7.17.5 Yn yr asesiad sgorio sgoriodd yn uchel gyda sgôr o 73. Mae hyn yn bennaf oherwydd agosrwydd y pentref at y ffin drefol ac ychydig o gyfyngiadau polisi mawr.

### *Ymweliad Safle*

7.17.6 Yn ystod yr ymweliad safle, nodwyd sut y daeth y safleoedd a ddyrannwyd gan y CDLl presennol gerbron, gan ffurfio estyniadau trefol helaeth, yn arbennig datblygiad Great Milton Park gan Redrow ar dir i'r de o Cot Hill. Mae'r datblygiadau hyn yn rhoi cymeriad mwy maestrefol i'r ardal.

7.17.7 Mae'r pentref yn elwa o fynediad da i'r Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol, er bod y system unffordd o amgylch yr hen bentref (Lodge Hill, Lôn Langstone, Milton Hill) yn eithaf cul ac nad oes llwybr. Gallai datblygiad pellach yn y pen hwn o'r pentref warantu gwelliannau priffyrdd.

7.17.8 Roedd tystiolaeth weladwy o broblemau dŵr wyneb ar Lôn Langstone y mae trigolion lleol yn awgrymu eu bod wedi cael eu gwaethygu gan ddatblygiadau diweddar.

### *Hanes Cynllunio*


7.17.9 Mae'r pentref a'r ardal gyfagos yn rhan o Ardal Ehangu Ddwyreiniol y ddinas a nodwyd gan y CDLl mabwysiedig ac sy'n cynnwys y safleoedd o amgylch pentref Llan-wern a hen safle Gwaith Dur Llan-wern. O ganlyniad i ddyraniad y CDLl, diwygiwyd ffin y pentref yn sylweddol trwy fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, gan adlewyrchu'r newidiadau hyn.

### *Safleoedd Ymgeisiol*

7.17.10 Mae'r safleoedd â'r cyfeirnodau CS0029 ac CS0032 yn safleoedd mawr a allai arwain at newid sylweddol i unrhyw ffin anheddiad ar gyfer Llan-wern os caiff ei symud ymlaen.

### *Argymhelliad*

7.17.11 Argymhellir bod pentref Llan-wern yn cael ei ymgorffori yn y ffin drefol, gan adlewyrchu'r newid i gymeriad ehangach y pentref o ganlyniad i ddatblygiad yn yr ardal. Mae ystyriaeth bellach i'w rhoi i ehangu'r ffin ymhellach os bydd safleoedd ymgeisiol yn cael eu symud ymlaen.




| MAP KEY | |
|---|---|
| Existing village boundary | (black line) |
| Proposed Candidate Sites | (red line) |

*Noder: Ni chynigir unrhyw ddiwygiadau i ffin bentref Llan-wern ar hyn o bryd, felly bydd yr un peth â'r un presennol. Mae pob un o'r tri safle i'r gogledd a'r dwyrain o'r pentref yn un safle ymgeisiol, sef CS0032.*

## 8 ATODIAD 1 – Asesiad Sgorio

| 1. Trafnidiaeth a theithio llesol – pellter o ganol y pentref | Pwyntiau ar Gael | Trefesgob | Sgôr | Underwood | Sgôr | Y Redwig | Sgôr | Llansanffraid Gwynllŵg | Sgôr | Llan-bedr Gwynllŵg | Sgôr | Cas-bach | Sgôr | Maerun | Sgôr | Llan-wern | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teithio Llesol (pellter mewn milltiroedd)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Pellter cerdded i ganolfan leol/canolfan ardal (llai na 2 filltir o ganol y pentref) | 5 | 1.5 m i ganolfan leol Underwood | 5 | Canolfan Leol yn y pentref | 5 | Nac ydyw | 0 | Nac ydyw | 0 | Nac ydyw | 0 | Nac ydyw | 0 | Nac ydyw | 0 | 1.0 milltir i Ganolfan Leol Ringland | 5 |
| Pellter beicio i ganolfan leol/ardal (llai na 5 milltir o ganol y pentref) | 5 | 1.5 m i ganolfan leol Underwood | 5 | Canolfan Leol yn y pentref | 5 | | 5 | 2.7 milltir i Ganolfan Leol Dyffryn | 5 | 3 milltir i Ganolfan Ardal Llaneirwg | 5 | 2.1 m i Ganolfan Ardal Llaneirwg | 5 | 2.5 m i Ganolfan Ardal Llaneirwg | 5 | 1.0 milltir i Ganolfan Leol Ringland | 5 |
| Llwybr Teithio Llesol / Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn rhedeg drwy'r pentref | 2 | | 0 | | 0 | Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol | 2 | | 0 | | 0 | | 0 | Oes | 2 | Oes | 2 |
| **Gorsaf Reilffordd gyda gwasanaeth bob awr i Gasnewydd/Caerdydd (o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y dydd):** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| O fewn 4 milltir | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | | | |
| 4-6 milltir | 2 | 6.4 m i Gyffordd Twnnel Hafren | 2 | 5.9 m i Gyffordd Twnnel Hafren | 2 | 4.9 m i Gyffordd Twnnel Hafren | 2 | 5 milltir i Gasnewydd | 2 | | 0 | 4.3m i Pye Corner | 2 | 5.2 m i Pye Corner | 2 | 4.6 milltir i Gasnewydd | 2 |
| > 6 milltir | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | 6.3 milltir i Pye Corner | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **Darpariaeth Gwasanaeth Bws i Ganol Dinas Casnewydd:** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwasanaeth Bws Bob Awr (neu'n amlach) – o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y dydd | 5 | Nac oes | 0 | Casnewydd–Cas-gwent (rhif. 74) | 5 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | | 0 | Casnewydd–Caerdydd (rhif. 30) | 5 | Nac oes | 0 | | 0 |
| Gwasanaeth bws llai aml (< 1 yr awr) – o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y dydd | 2 | Nac oes | 0 | | 0 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | | 0 | | 0 | Nac oes | 0 | | 0 |
| O fewn parth gwasanaeth bws Fflecsi | 2 | Nac ydyw | 0 | Ydyw | 2 | Nac ydyw | 0 | Nac ydyw | 0 | Nac ydyw | 0 | Nac ydyw | 0 | Nac ydyw | 0 | Nac ydyw | 0 |
| Dim gwasanaeth bws | 0 | Dim llwybr pwrpasol | 0 | | 0 | Dim llwybr pwrpasol | 0 | Dim llwybr pwrpasol | 0 | Dim llwybr pwrpasol | 0 | | 0 | Dim llwybr pwrpasol | 0 | Dim llwybr pwrpasol | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| < 2.5 milltir | 5 | 2.3 milltir | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | 1.3 milltir | 5 | | 0 | | 0 |
| 2.5 milltir | 2 | | 0 | 3.2 milltir | 2 | 3.8 milltir | 2 | 3.5 milltir | 2 | 2.7 milltir | 2 | | 0 | 2.6 milltir | 2 | 2.9 milltir | 2 |
| > 5 milltir | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **Pellter o'r pentref i Ganol Dinas Casnewydd (ar y ffordd):** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| > 5 milltir | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | 4.8 milltir | 5 | | 0 | 4.6 milltir | 5 |
| 5 i 8 milltir | 2 | 6.4 milltir | 2 | 7.2 milltir | 2 | | 0 | 4.6 milltir | 2 | 7 milltir | 2 | | 0 | 5.4 milltir | 2 | | 0 |
| > 8 milltir | 0 | | 0 | | 0 | 8.2 milltir | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **IS-GYFANSWM (Cam 1)** | **42** | | **19** | | **23** | | **11** | | **11** | | **9** | | **22** | | **13** | | **21** |

| **1. Trafnidiaeth a theithio llesol – pellter o ganol y pentref** | **Pwyntiau ar Gael** | **Christchurch** | Sgôr | **Allteuryn** | Sgôr | **Trefonnen** | Sgôr | **Parc Seymour** | Sgôr | **Llanfaches** | Sgôr | **Llandyfaud** | Sgôr | **Pen-hw** | Sgôr | **Machen Isaf** | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teithio Llesol (pellter mewn milltiroedd)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Pellter cerdded i ganolfan leol/canolfan ardal (llai na 2 filltir o ganol y pentref) | 5 | 1.3 milltir i Ganolfan Leol Ringland | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| Pellter beicio i ganolfan leol/ardal (llai na 5 milltir o ganol y pentref) | 5 | 1.3 milltir i Ganolfan Leol Ringland | 5 | 3.4 milltir i Barc Manwerthu Casnewydd | 5 | 2.3 milltir i Barc Manwerthu Casnewydd | 5 | 4 milltir i Ganolfan Leol Underwood | 5 | 4 milltir i ganolfan leol Magwyr | | | 5 | 3.5 milltir i Fagwyr | 5 | Laurel Drive, Basaleg | 5 |
| Llwybr Teithio Llesol / Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn rhedeg drwy'r pentref | 2 | | 0 | | 0 | Oes | 2 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **Gorsaf Reilffordd gyda gwasanaeth bob awr i Gasnewydd/Caerdydd (o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y dydd):** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| O fewn 4 milltir | 5 | 3.6 milltir i Gasnewydd | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | | | 0 | | 0 | | 0 |
| 4 – 6 milltir | 2 | | 0 | 6.1 milltir i Gasnewydd | 2 | 5 milltir i Gasnewydd | 2 | 5.5 milltir i Gyffordd Twnnel Hafren | 2 | 5.7 milltir i Gyffordd Twnnel Hafren | 2 | 6 milltir i Gyffordd Twnnel Hafren | 2 | 4.4 milltir i Gyffordd Twnnel Hafren | 2 | 4 milltir i Pye Corner | 2 |
| > 6 milltir | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | | | 0 | | 0 | | 0 |
| **Darpariaeth Gwasanaeth Bws i Ganol Dinas Casnewydd:** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwasanaeth Bws Bob Awr (neu'n amlach) – o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y dydd | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | Casnewydd–Cas-gwent (rhif 73) | 5 | Safle bws 600 m o ganol y pentref (yn rhy bell – wedi'i ddiystyru) | 0 | Safle bws 600 m i ffwrdd ar y brif ffordd (yn rhy bell – wedi'i ddiystyru) | 0 | Casnewydd–Cas-gwent (rhif 73) | 5 | Casnewydd–Caerffili (rhif 50/50A) | 5 |
| Gwasanaeth bws llai aml (< 1 yr awr) – o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y dydd | 2 | Casnewydd–Ringland/Parc Manwerthu (rhif 20A/C) | 2 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| O fewn parth gwasanaeth bws Fflecsi | 2 | Ydyw | 2 | Nac ydyw | 0 | Nac ydyw | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| Dim gwasanaeth bws | 0 | | 0 | Dim llwybr pwrpasol | 0 | Dim llwybr pwrpasol | 0 | | 0 | Dim llwybr pwrpasol | 0 | Dim llwybr pwrpasol | 0 | | 0 | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| < 2.5 milltir | 5 | 1.2 milltir | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| 2.5 milltir | 2 | | 0 | | 0 | 5 milltir | 2 | 4.4 milltir | 2 | 4.4 milltir | 2 | 3.2 milltir | 2 | 3.6 milltir | 2 | 4.7 milltir | 2 |
| > 5 milltir | 0 | | 0 | 6 milltir | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **Pellter o'r pentref i Ganol Dinas Casnewydd (ar y ffordd):** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| > 5 milltir | 5 | 3.2 milltir | 5 | | 0 | 4.9 milltir | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| 5 i 8 milltir | 2 | | 0 | 6 milltir | 2 | | 0 | 7.6 milltir | 2 | | 0 | 7.2 milltir | 2 | | 0 | 5.9 milltir | 2 |
| > 8 milltir | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | 9.5 milltir | 0 | | 0 | 8.3 milltir | 0 | | 0 |
| **IS-GYFANSWM (Cam 1)** | **42** | | **29** | | **9** | | **16** | | **16** | | **9** | | **11** | | **14** | | **16** |

| 2. Seilwaith a Chyflogaeth | Pwyntiau ar Gael | Trefesgob | Sgôr | Underwood | Sgôr | Y Redwig | Sgôr | Llansanffraid Gwynllŵg | Sgôr | Llan-bedr Gwynllŵg | Sgôr | Cas-bach | Sgôr | Maerun | Sgôr | Llan-wern | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cysylltedd â chyfleustodau** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cysylltiad â system draenio dŵr budr (mwyafrif y pentref) | 5 | Oes | 5 | Oes | 5 | | 0 | | 5 | | 5 | Oes | 5 | Oes | 5 | Oes | 5 |
| Dim cysylltedd neu gysylltedd cyfyngedig iawn i'r system draenio dŵr budr | 0 | | 0 | | 0 | Na | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **Presenoldeb cyfleoedd cyflogaeth** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfleoedd cyflogaeth (safleoedd a warchodir gan y CDLl/Parciau Diwydiannol) o fewn 2 filltir | 10 | 1.5 m (Gwent Europark – NP26 3TS) | 10 | | 0 | | 0 | | | | | 2.0 m (Parc Imperial – NP10 8BE) | 10 | | 0 | | 0 |
| Cyfleoedd cyflogaeth (safleoedd a warchodir gan y CDLl/Parciau Diwydiannol) o fewn 5 milltir | 5 | | 0 | 2.8 m (Gwent Europark NP26 3TS) | 5 | 2.5 m (Gwent Europark - NP26 3TS) | 5 | 3.1 m (Gwent Europark - NP26 3TS) | 5 | 2.2 m (Parc Corfforaethol Gwynllŵg – CF3 2ER) | 5 | | 0 | 3.1 milltir (Parc Imperial) | 5 | Ystad Ddiwydiannol Dôl Queensway (2.8 milltir) | 5 |
| Cyfleoedd cyflogaeth (a warchodir gan y CDLl/Parciau Diwydiannol) 5+ milltir | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **Cysylltedd Rhyngrwyd (Cyflymder Lawrlwytho Uchaf – wedi'i ddiffinio gan Ofcom)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyflymder lawrlwytho tra chyflym (<300 Mbps) | 10 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | 330 Mbps | 10 | | 0 | | 0 | 330 Mbps | 10 |
| Cyflymder lawrlwytho tra chyflym (30-300 Mbps) | 5 | | 0 | 100 Mbps | 5 | 65 Mbps | 5 | 75 Mbps | 5 | | 0 | 80 Mbps | 5 | 75 Mbps | 5 | | 0 |
| Cyflymder Lawrlwytho Safonol (<30 Mbps) | 2 | 20 Mbps | 2 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **IS-GYFANSWM (Cam 2)** | **37** | | **12** | | **10** | | **10** | | **15** | | **20** | | **20** | | **15** | | **20** |

| **2. Seilwaith a Chyflogaeth** | **Pwyntiau ar Gael** | **Christchurch** | Sgôr | **Allteuryn** | Sgôr | **Trefonnen** | Sgôr | **Parc Seymour** | Sgôr | **Llanfaches** | Sgôr | **Llandyfaud** | Sgôr | **Pen-hw** | Sgôr | **Machen Isaf** | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cysylltedd â chyfleustodau** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cysylltiad â system draenio dŵr budr (mwyafrif y pentref) | 5 | Christchurch | 5 | | 0 | Oes | 5 | Oes | 5 | Oes | 5 | Oes | 5 | Oes | 5 | Oes | 5 |
| Dim cysylltedd neu gysylltedd cyfyngedig iawn i'r system draenio dŵr budr | | | 0 | Na – tanciau septig | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **Presenoldeb cyfleoedd cyflogaeth** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfleoedd cyflogaeth (safleoedd a warchodir gan y CDLl/Parciau Diwydiannol) o fewn 2 filltir | 10 | | 0 | | 0 | Ystâd Ddiwydiannol Leeway 1.9 milltir | 10 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| Cyfleoedd cyflogaeth (safleoedd a warchodir gan y CDLl/Parciau Diwydiannol) o fewn 5 milltir | 5 | Canol y Ddinas – 2.5 filltir | 5 | Ystad Ddiwydiannol Leeway 3 milltir | 5 | | 0 | Pentref Busnes Langstone – 3.5 milltir | 5 | | 0 | Pentref Busnes Langstone – 3.3 milltir | 5 | Pentref Busnes Langstone – 3.4 milltir | 5 | Parc Cleppa – 4.5 milltir | 5 |
| Cyfleoedd cyflogaeth (a warchodir gan y CDLl/Parciau Diwydiannol) 5+ milltir | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | Pentref Busnes Langstone (5.5 milltir) | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **Cysylltedd Rhyngrwyd (Cyflymder Lawrlwytho Uchaf – wedi'i ddiffinio gan Ofcom)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyflymder lawrlwytho tra chyflym (<300 Mbps) | 10 | | 0 | 330 Mbps | 10 | 330 Mbps | 10 | | 0 | 990 Mbps | 10 | | 0 | | 0 | | 0 |
| Cyflymder lawrlwytho tra chyflym (30-300 Mbps) | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | 80 Mbps | 5 | | 0 | 80 Mbps | 5 | 80 Mbps | 5 | 80 Mbps | 5 |
| Cyflymder Lawrlwytho Safonol (<30 Mbps) | 2 | 25 Mbps | 2 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **IS-GYFANSWM (Cam 2)** | **37** | | **12** | | **15** | | **25** | | **15** | | **15** | | **15** | | **15** | | **15** |

| **3. Darparu Gwasanaethau (o fewn milltir i ffin y pentref)** | **Pwyntiau ar Gael** | **Trefesgob** | Sgôr | **Underwood** | Sgôr | **Y Redwig** | Sgôr | **Llansanffraid Gwynllŵg** | Sgôr | **Llan-bedr Gwynllŵg** | Sgôr | **Cas-bach** | Sgôr | **Maerun** | Sgôr | **Llan-wern** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meddygfa/Canolfan Iechyd | 5 | Nac oes | 0 | Canolfan Iechyd | 5 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | | 0 | Canolfan Iechyd Ringland | 5 |
| Fferyllfa | 5 | Nac oes | 0 | Llanfarthin | 5 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | (ym Maerun) | 5 | Oes | 5 | Lloyds (Ringland) | 5 |
| Siop Gyfleustra | 5 | Nac oes | 0 | Spar | 5 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Londis | 5 | Premier | 5 | McColl's (Ringland) | 5 |
| Swyddfa'r Post | 5 | Nac oes | 0 | Y tu mewn i Spar | 5 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | (ym Maerun) | 5 | Oes – y tu mewn i Premier | 5 | Canolfan Leol Ringland | 5 |
| Sefydliadau Bwyd a Diod (Tafarndai / Bwyty / Cludfwyd) | 2 | Nac oes | 0 | Cludfwyd/Tafarn | 2 | Tafarn y Rhosyn | 2 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Beefeater | 2 | Masons Arms | 2 | | 0 |
| Manwerthu Arall/Gwasanaeth Nodedig | 2 | Siop Fferm | 2 | Lifestyle Express | 2 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Gorsaf Betrol | 2 | Peiriannydd | 2 | Siopau cludfwyd (Ringland) | 2 |
| Neuadd Bentref/Canolfan Gymunedol | 2 | Oes | 2 | Oes | 2 | Oes | 2 | Nac oes | 0 | Oes | 2 | Oes | 2 | Oes | 2 | Canolfan Gymunedol Ringland | 2 |
| Man Addoli | 2 | Oes | 2 | Oes | 2 | Oes | 2 | Oes | 2 | Oes | 2 | Oes | 2 | Oes | 2 | Santes Fair Llan-wern | 2 |
| Clwb Ieuenctid/Grwpiau Cymdeithasol | 2 | Canolfan Gymunedol Underwood | 2 | Canolfan Gymunedol | 2 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Oes (Neuadd y Pentref) | 2 | Oes (Neuadd y Pentref) | 2 | Clwb Ieuenctid Ringland | 2 |
| **Hamdden** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Maes Hamdden (wedi'i warchod) | 2 | Nac oes | 0 | Oes | 2 | Nac oes | 0 | | 0 | | 0 | (Ym Maerun) | 2 | Oes (y tu ôl i'r neuadd) | 2 | | 0 |
| Canolfan Hamdden/Clwb Chwaraeon | 2 | Nac oes | 0 | (Heb ei ddefnyddio – safle heb ei ddatblygu) | 0 | Nac oes | 0 | | 0 | | 0 | (Ym Maerun) | 2 | Clwb Pêl-droed Maerun | 2 | Clwb Golff | 2 |
| Maes Chwarae Plant | 2 | Oes | 2 | Oes | 2 | Nac oes | 0 | | 0 | | 0 | (Ym Maerun) | 2 | Oes (wrth ymyl y neuadd) | 2 | | 0 |
| **Addysg** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Darpariaeth Cyn-Ysgol/Meithrinfa/Cylch Chwarae | 2 | Canolfan Gymunedol Underwood | 2 | Canolfan Gymunedol | 2 | Appletree day | 2 | | 0 | | 0 | Neuadd Bentref | 2 | (yn Cas-bach) | 2 | | 0 |
| Ysgol Gynradd | 5 | Nac oes | 0 | Llanfarthin | 5 | Nac oes | 0 | | 0 | | 0 | Ysgol Gynradd Maerun | 5 | | 5 | Ysgol Gynradd Milton + tir a glustnodwyd yn y CDLl blaenorol | 5 |
| Ysgol Uwchradd/Addysg Bellach | 2 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | | 0 | | 0 | Nac oes | 0 | Nac oes | 0 | Ysgol Uwchradd (Llan-wern) | 2 |
| **IS-GYFANSWM (Cam 3)** | **45** | | **12** | | **41** | | **8** | | **2** | | **4** | | **38** | | **38** | | **37** |

| **3. Darpariaeth Gwasanaethau (o fewn milltir i ffin y pentref)** | **Pwyntiau ar Gael** | **Christchurch** | Sgôr | **Allteuryn** | Sgôr | **Trefonnen** | Sgôr | **Parc Seymour** | Sgôr | **Llanfaches** | Sgôr | **Llandyfaud** | Sgôr | **Pen-hw** | Sgôr | **Machen Isaf** | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meddygfa/Canolfan Iechyd | 5 | Canolfan Iechyd Ringland | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| Fferyllfa | 5 | Lloyds (Ringland) | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| Siop Gyfleustra | 5 | Tesco (Heol Cas-gwent) | 5 | | 0 | | 0 | Siop Gymunedol | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| Swyddfa'r Post | 5 | Canolfan Leol Ringland | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| Sefydliadau Bwyd a Diod (Tafarndai / Bwyty / Cludfwyd) | 2 | Tafarn y Greyhound | 2 | Tafarn The Farmers Arms | 2 | Tafarn Waterloo | 2 | Tafarn y Groes Wen | 2 | Tafarn y Rock and Fountain | 2 | Tamarind Llandyfaud | 2 | Tafarn y Rock and Fountain | 2 | | 0 |
| Manwerthu Arall/Gwasanaeth Nodedig | 2 | Siop goffi | 2 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | Gwerthwr ceir | 2 | Parlwr Tatŵ | 2 | | 0 |
| Neuadd Bentref/Canolfan Gymunedol | 2 | Canolfan Gymunedol Ringland | 2 | | 0 | Neuadd Bentref | 1 | | 0 | Ystafell yr Eglwys | 2 | | 0 | Neuadd Sant Ioan | 2 | | 0 |
| Man Addoli | 2 | Eglwys y Drindod Sanctaidd | 2 | Eglwys Mair Fadlen | 2 | Eglwys y Santes Fair | 2 | Eglwys Fedyddwyr Pen-hw | 2 | Santt Dubritius | 2 | San Pedr | 2 | Sant Ioan | 2 | Mihangel Sant a'r Holl Angylion | 2 |
| Clwb Ieuenctid/Grwpiau Cymdeithasol | 2 | Clwb Ieuenctid Ringland | 2 | | 0 | | 0 | | 0 | Grŵp Sgowtiaid | 2 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **Hamdden** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Maes Hamdden (wedi'i warchod) | 2 | | 0 | | 0 | Wrth ymyl y Neuadd Bentref | 2 | Parc Seymour | 2 | Parc Heol y Rheithordy | 2 | Comin Llandyfaud | 2 | | 0 | | 0 |
| Canolfan Hamdden/Clwb Chwaraeon | 2 | Maes Hamdden (golygfan) | 2 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| Maes Chwarae Plant | 2 | | 0 | | 0 | Wrth ymyl y Neuadd Bentref | 2 | Parc Seymour | 2 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **Addysg** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Darpariaeth Cyn-Ysgol/Meithrinfa/Cylch Chwarae | 2 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| Ysgol Gynradd | 5 | Ysgol Gynradd Milton | 5 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| Ysgol Uwchradd/Addysg Bellach | 2 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 |
| **IS-GYFANSWM (Cam 3)** | **45** | | **37** | | **4** | | **9** | | **13** | | **10** | | **8** | | **8** | | **2** |

| **4. Ffactorau amgylcheddol a diwylliannol (o fewn ffiniau neu gerllaw)** | **Pwyntiau ar Gael** | **Trefesgob** | Sgôr | **Underwood** | Sgôr | **Y Redwig** | Sgôr | **Llansanffraid Gwynllŵg** | Sgôr | **Llan-bedr Gwynllŵg** | Sgôr | **Cas-bach** | Sgôr | **Maerun** | Sgôr | **Llan-wern** | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amgylcheddol | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Dynodiad Rhyngwladol (llai 7 pwynt)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol (Gwastadeddau Gwent) | -7 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | Gwastadeddau Gwent – y pentref cyfan | -7 | Gwastadeddau Gwent – y pentref cyfan | -7 | Gwastadeddau Gwent – y pentref cyfan | -7 | Ffin ddeheuol y pentref | -7 | Yn amgylchynu'r pentref (de, gorllewin, dwyrain) | -7 | | Amherthnasol |
| RAMSAR/Ardal Gwarchodaeth Arbennig/Ardal Cadwraeth Arbennig (Gwlyptiroedd Gwarchodedig) | -7 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | Mae Gwastadeddau Gwent i'r de | -7 | Mae Gwastadeddau Gwent i'r de | -7 | RAMSAR i'r de o'r pentref ar hyd y Gwastadeddau | -7 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| **Dynodiad Cenedlaethol (llai 5 pwynt)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ardal Archaeolegol Sensitif/Heneb Gofrestredig | -5 | Heneb Gofrestredig y Fferm y Castell | -5 | | Amherthnasol | Yn amgylchynu'r pentref | -5 | Yn amgylchynu'r pentref | -5 | Yn amgylchynu'r pentref | -5 | | Amherthnasol | I'r de ac i'r dwyrain o'r pentref | -5 | | Amherthnasol |
| Perygl llifogydd uchel (afonol, cwrs dŵr, arfordirol) – cyfyngiad pwysig i Gasnewydd | -5 | Mae cwrs dŵr ar hyd Heol Trefesgob yn dueddol o ddioddef llifogydd | -5 | Perygl llifogydd afonol o Ffos y Mynachod | -5 | Arfordirol | -5 | Arfordirol | -5 | Arfordirol | -5 | | Amherthnasol | Cwrs dŵr ac arfordirol risg isel | -5 | Cwrs dŵr/afonol uchel i'r dwyrain o'r pentref (Ffos y Mynachod) | -5 |
| SoDdGA/Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) (gwlyptiroedd) | -5 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | SoDdGA – Gwastadeddau Gwent | -5 | SoDdGA yn amgylchynu'r ffin | -5 | SoDdGA yn amgylchynu'r ffin | -5 | | Amherthnasol | SoDdGA i'r de | -5 | | Amherthnasol |
| **Dynodiad lleol (llai 2 bwynt)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) | -2 | | Amherthnasol | Coedwig Stoc/Y Goedwig Routs | -2 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| Llain Las | -2 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | O fewn ardal ddynodedig | -2 | Caerdydd – Casnewydd Llain las i'r gorllewin | -2 | I'r gorllewin o'r anheddiad | -2 | | Amherthnasol |
| Lletem Las | -2 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | Yn amgylchynu'r pentref | -2 | | Amherthnasol | I'r dwyrain ac i'r gogledd | -2 | I'r dwyrain ac i'r gogledd o'r pentref | -2 | | Amherthnasol |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | o'r pentref | | | | | |
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer | -2 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| **Gwybodaeth Tirwedd (dim pwyntiau)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) | 0 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | Ydyw | 0 | Ydyw | 0 | Ydyw | 0 | Ydyw | 0 | Ydyw | 0 | | Amherthnasol |
| Ardal Gadwraeth | 0 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | Ardal Gadwraeth y Redwig | 0 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| **IS-GYFANSWM (Cam 4)** | **-37** | | **-10** | | **-7** | | **-29** | | **-31** | | **-31** | | **-11** | | **-26** | | **-5** |

| **4. Ffactorau amgylcheddol a diwylliannol (o fewn ffiniau neu gerllaw)** | **Pwyntiau ar Gael** | **Christchurch** | Sgôr | **Allteuryn** | Sgôr | **Trefonnen** | Sgôr | **Parc Seymour** | Sgôr | **Llanfaches** | Sgôr | **Llandyfaud** | Sgôr | **Pen-hw** | Sgôr | **Machen Isaf** | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amgylcheddol** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Dynodiad Rhyngwladol (llai 7 pwynt)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol (Gwastadeddau Gwent) | -7 | | Amherthnasol | Gwastadeddau Gwent – y pentref cyfan | -7 | Gwastadeddau Gwent – y pentref cyfan | -7 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| RAMSAR/Ardal Gwarchodaeth Arbennig/Ardal Cadwraeth Arbennig (Gwlyptiroedd Gwarchodedig) | -7 | | Amherthnasol | RAMSAR ar hyd Ffos Allteuryn | -7 | RAMSAR/ATA i'r de o'r pentref (Gwastadeddau Gwent) | -7 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| **Dynodiad Cenedlaethol (llai 5 pwynt)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ardal Archaeolegol Sensitif/Heneb Gofrestredig | -5 | | Amherthnasol | Yn amgylchynu'r pentref | -5 | Yn amgylchynu'r pentref | -5 | | Amherthnasol | Heneb Gofrestredig i'r gogledd o'r ffin – safle'r castell | -5 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| Perygl llifogydd uchel (afonol, cwrs dŵr, arfordirol) – cyfyngiad pwysig i Gasnewydd | -5 | Dim perygl llifogydd mawr – drychiad uchel | Amherthnasol | Arfordirol uchel | -5 | Afonol uchel ac arfordirol isel | -5 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | Perygl llifogydd afonol uchel – nant y tu ôl i Fferm Green Acres | -5 | | Amherthnasol |
| SoDdGA/Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) (gwlyptiroedd) | -5 | | Amherthnasol | Gwlyptiroedd GNG/ SoDdGA yn amgylchynu'r ffin | -5 | Gwlyptiroedd GNG/ SoDdGA yn amgylchynu'r ffin | -5 | SoDdGA – Coedwig Klondyke | -5 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| **Dynodiad lleol (llai 2 bwynt)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) | -2 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | Sawl un yn amgylchynu'r pentref | -2 | | Amherthnasol | SINC Comin Llandyfaud | -2 | | Amherthnasol | Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur | -2 |
| Llain Las | -2 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| Lletem Las | -2 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer | -2 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |

| **Gwybodaeth Tirwedd (dim pwyntiau)** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) | 0 | | Amherthnasol | Ydyw | 0 | Ydyw | 0 | ATA Coed Gwent | 0 | ATA Coed Gwent | 0 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | Ydyw | 0 |
| Ardal Gadwraeth | 0 | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | Ardal Gadwraeth Machen Isaf | 0 |
| **IS-GYFANSWM (Cam 4)** | **-37** | | **0** | | **-29** | | **-29** | | **-7** | | **-5** | | **-2** | | **-5** | | **-2** |

| **Cyfanswm Sgorau** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm ar Gael | **Trefesgob** | **Underwood** | **Y Redwig** | **Llansanffraid Gwynllŵg** | **Llan-bedr Gwynllŵg** | **Cas-bach** | **Maerun** | **Llan-wern** | **Christchurch** | **Allteuryn** | **Trefonnen** | **Parc Seymour** | **Llanfaches** | **Llandyfaud** | **Pen-hw** | **Machen Isaf** |
| **CYFANSWM SGÔR** | 87 | 33 | 67 | 0 | -3 | 2 | 69 | 40 | 73 | 78 | -1 | 21 | 37 | 29 | 32 | 32 | 31 |